

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

2016/17

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

# Cynnwys


4 Cyflwyniad

5 Blwyddyn o lwyddiannau

11 Cefnogaeth gyda'm dyletswyddau

14 Cyflawni rôl Comisiynydd Heddlu a Throsedd

19 Blwyddyn o ddigwyddiadau

22 Amcanion Heddlu a Throsedd 2016/17

31 Perfformiad a Chanlyniadau

33 Yr Her Ariannol

41 Edrych i'r dyfodol

49 Manylion Cyswllt


LLUN CLAWR BLAEN: ARFON JONES, COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD



# Cyflwyniad

Croeso i adroddiad blynyddol 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am y blaenoriaethau plismona a bennwyd gan fy rhagflaenydd, Mr Winston Roddick QC CB, ac am fy mlwyddyn gyntaf yn y swydd.

Mae'r adroddiad yn darparu trosolwg i chi o'm swydd, prif lwyddiannau'r flwyddyn ddiwethaf, gwybodaeth am ein heriau ariannol a gwybodaeth am fy amcanion ar gyfer y dyfodol.


Hoffaf fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Mr Roddick am ei waith fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu cyntaf gogledd Cymru, a'i longyfarch am ei lwyddiannau ac am greu sylfaen gref i mi gael adeiladu arni.

Hoffaf hefyd ddiolch i bawb sydd wedi fy nghynorthwyo yn ystod fy mlwyddyn gyntaf, yn arbennig plismyn, staff a heddlu gwirfoddol Heddlu Gogledd Cymru; fy nhîm o staff ymroddedig a holl wirfoddolwyr teulu'r heddlu – ni fedraf wneud y swydd hon heboch chi.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod Heddlu Gogledd Cymru, dan arweiniad Prif Gwnstabl Mark Polin, wedi perfformio'n dda iawn. Yn dilyn blynyddoedd o heriau ariannol mae'r Heddlu yn parhau i ddarparu gwasanaeth plismona yr ydym ni'n gallu ymfalchïo ynddo.

Yn olaf, hoffaf ddiolch i aelodau'r Panel Heddlu a Throsedd am eu cyfraniad tuag at drefniadau plismona yng ngogledd Cymru.

Mae bod yn agored, tryloyw ac atebol yn bwysig iawn i mi. Roeddwn i'n falch iawn bod Cymharu Comisiynwyr Heddlu a Throsedd wedi cydnabod fy ymrwymiad, gan gyflwyno Gwobr Tryloywder 2016 i mi. Fy mwriad yw cynnal y lefel uchel hon o atebolrwydd, ac mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwnnw.



Arfon Jones
Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Gogledd Cymru

# Blwyddyn o lwyddiannau

Ebrill 2016 · Mai 2016 · Mehefin 2016 · Gorffennaf 2016 · Awst 2016 · Medi 2016 · Hydref 2016 · Tachwedd 2016 · Rhagfyr 2016 · Ionawr 2017 · Chwefror 2017 · Mawrth 2017

Rwyf yn falch iawn o waith a llwyddiannau fy swyddfa, Heddlu Gogledd Cymru a'n partneriaid yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yn y swydd.

Isod rwyf wedi rhestru rhai o'n llwyddiannau, sy'n cyfrannu at wneud gogledd Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag o. Mae'r llwyddiannau hyn yn dyst i safon uchel ein gwasanaethau plismona, yn arbennig i ddioddefwyr trosedd.

## Ebrill 2016

- Estyn yr **Uned Arfau Tân** ar y cyd gyda Heddlu Caer i gynnwys y ddwy **Adran Gŵn** o fis Ebrill ymlaen. Unwyd y Cynllun Ymweliadau Lles Cŵn yn ogystal.
- Cynhaliodd yr Heddlu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wasanaeth **brysbennu ar y stryd** yn Wrecsam i ofalu am unigolion gyda phroblemau iechyd meddwl a lleihau nifer y carchariadau dan adran 136. Darparwyd y cyllid ar gyfer y prosiect hwn yn dilyn cyflwyno cais llwyddiannus ar y cyd am **£155,220** gan y Swyddfa Gartref.
- Cafwyd **cymeradwyaeth** i godi pencadlys adrannol newydd, dalfa a gorsaf heddlu newydd yng nghanol tref Wrecsam. Bydd yr adeiladau newydd yn darparu cyfleusterau modern a hygyrch i'r Ardal Reoli Ddwyreiniol.

## Mai 2016

- Cefnogi'r **Ganolfan Les a Thriniaeth Alcohol,** sy'n darparu cymorth cyntaf a chefnogaeth les i unigolion a all fod yn ddiamddiffyn ar ôl yfed gormod o alcohol.
- Heddlu Gogledd Cymru oedd y perfformwyr gorau o ran caffael cyllid o enillion atafaelu, gan sicrhau **£106,850.53** a fydd yn cael ei ail-fuddsoddi yn ein cymunedau trwy fenter "Eich Cymuned, Eich Llais".
- Cyflogi **Gweithiwr Achosion Iechyd Meddwl** yn y Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr i helpu dioddefwyr gyda phroblemau iechyd meddwl.
- Mae'r tîm **Troseddau Gwledig** yn parhau i arwain y ffordd o ran atal a mynd i'r afael â throseddau gwledig yng ngogledd Cymru.

## Mehefin 2016

- Cynyddu nifer y Cadetiaid Heddlu mewn digwyddiadau cymdogaeth, gwaith atal ac ymarferion efelychu. Lansiwyd **Uned Ymateb a Reolir** i ddelio gyda digwyddiadau amser araf a datrys materion heb alw swyddogion.
- Mae **Cronfa'r Comisiynydd** wedi darparu cyllid ar gyfer nifer o brosiectau a sefydliadau er mwyn mynd i'r afael â throsedd ac anhrefn, i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig ac ymosodiadau rhywiol, ac i gefnogi pobl sy'n troseddu oherwydd dibyniaeth. Rhoddwyd ychydig dros **ddwy filiwn o bunnoedd** i amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaeth yn 2016/17.
- **Wedi cysylltu a helpu** 14,168 o ddioddefwyr, 1,864 ohonynt yn blant neu'n bobl ifanc, a gysylltodd â'r Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr. Dangosodd canlyniadau arolwg y gwasanaeth lefel foddhad o 100%, gyda 75% o'r ymatebwyr yn nodi bod eu hiechyd a'u lles yn well yn dilyn derbyn y gwasanaeth.




## Gorffennaf 2016

- Mae'r prosiect **Dinasyddion yn Plismona** yn parhau i fynd o nerth i nerth gyda mwy a mwy o heddweision gwirfoddol, staff gwirfoddol a chadetiaid. Mae prosiectau a rolau gwirfoddol bellach yn cynnwys **Gwirfoddolwyr Gwylio Cyflymder Cymunedol, Caplan Heddlu a Hyfforddwr Cymorth Cyntaf**.
- Mae mwy o **heddweision gwirfoddol** wedi eu lleoli yn y **Tîm Troseddau Gwledig**, patrôl gyda'r nos Wrecsam ac i ddarparu gwasanaeth plismona mwy gweledol mewn digwyddiadau, megis Strafagansa Llandudno a Phrom a Mwy ym Mae Colwyn.

# Blwyddyn o lwyddiannau



## Awst 2016

- Cytundeb bod swyddogion yr Awdurdod Tân ac Achub yn cynorthwyo Heddlu Gogledd Cymru gyda **digwyddiadau unigolion ar goll o'u cartrefi.** Bydd hyn yn lleihau'r pwysau ar Heddlu Gogledd Cymru oherwydd, yn 2016/17 yn unig, cafwyd adroddiadau am 1532 o blant a phobl ifanc ar goll o'u cartrefi.
- **Craffu'n** fanwl ar weithdrefnau cludiant mwy diogel rhwng Wrecsam a Chaer ar gyfer cefnogwyr pêl-droed.
- Cytuno ar, a mabwysiadu, **Fframwaith Partneriaeth a Chydweithio** newydd sy'n amlinellu'r anghenion sylfaenol ar gyfer partneriaethau, cydweithio a threfniadau eraill ar y cyd.

## Medi 2016

- Mynychu Diwrnod Cenedlaethol Coffau'r Heddlu gyda dau gadet. Roedd yn **fraint** gan y cadetiaid fynychu'r digwyddiad a bod yn rhan o'r un ar bymtheg oedd yn cynrychioli'r heddlu yn genedlaethol, a chael cwrdd â Chomisiynydd yr Heddlu Metropolitanaidd.
- **Cynyddodd** nifer y cadetiaid yn Heddlu Gogledd Cymru i 106 (60 y llynedd).
- Sefydlu **Tîm Ymyrraeth Gynnar** ar y cyd yn Sir y Fflint i weithio gyda'r rheiny sy'n creu'r galw mwyaf o ran bygythiad, niwed a risg.
- Rhoddodd y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd araith ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn ystod y gynhadledd a drefnwyd gan Barnardo's yn Llanelwy.

## Hydref 2016

- Mewn ymateb i'r cynnydd mewn tystiolaeth ffotograffig a fideo drwy gamerâu dangosfwrdd, lansiwyd Ymgyrch SNAP. Mae Gan Bwyll bellach yn datblygu'r ymgyrch ar lefel genedlaethol.
- Ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, mae **chwe chlinigwr**, gan gynnwys nyrs iechyd meddwl, wedi derbyn hyfforddiant i ddarparu cyngor meddygol i Reolwr Digwyddiadau'r Heddlu o ran y bobl fwyaf diamddiffyn. Ariennir y clinigwyr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.




## Tachwedd 2016

- Ennill **Gwobr Tryloywder** Cymharu Comisiynwyr Heddlu a Throsedd am ddarparu'r holl wybodaeth statudol mewn modd agored a thryloyw.
- Yn ychwanegol at y digwyddiadau arferol, cynaliasom gynhadledd gyda sefydliadau unigol o'r **trydydd sector** i dderbyn eu barn am y blaenoriaethau plismona.
- Lansio'r **Uned Atgyfeirio Ganolog** sydd wedi ei chyd-leoli gyda Chyngor Conwy. Prif amcan yr uned yw darparu cefnogaeth gynnar a diogelu pobl ddiamddiffyn.

## Rhagfyr 2016

- Lansiwyd **Uned Diogelwch ar y Ffyrdd yr Heddlu Gwirfoddol** ar 1 Rhagfyr i weithio ochr yn ochr â **Phlismona Ffyrdd** a **Gan Bwyll**, gan weithredu fel cangen orfodi ar gyfer gwirfoddolwyr **Cynllun Gwylio Cyflymder Cymunedol**.
- Gyda chymorth y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Heddlu, cynhaliais **fforymau ymgynghori cyhoeddus** i dderbyn barn cymunedau am ein blaenoriaethau plismona.
- Dosbarthu grant gwerth £4,000 gan Lywodraeth Cymru rhwng gwahanol brosiectau yn yr ardal ac i hyrwyddo **Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb**.

# Blwyddyn o lwyddiannau

Ebrill 2016 · Mai 2016 · Mehefin 2016 · Gorffennaf 2016 · Awst 2016 · Medi 2016 · Hydref 2016 · Tachwedd 2016 · Rhagfyr 2016 · Ionawr 2017 · Chwefror 2017 · Mawrth 2017

## Ionawr 2017



- Mae defnyddio **camerâu corff** yn fantais fawr i gasglu tystiolaeth o droseddau a diogelu lles. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn un o'r 5 heddlu gorau am ddefnyddio'r camerâu hyn. Sicrhaodd Heddlu Gogledd Cymru **£44,000** gan Gronfa Arloesi'r Swyddfa Gartref a **£25,000** gan Gronfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu i brynu offer ychwanegol.
- Mewn **tri mis** anfonwyd 269 o lythyrau drwy'r **Prosiect Gwylio Cyflymder Cymunedol** at yrwyr a oedd wedi mynd dros y terfyn cyflymder, gan hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd yng ngogledd Cymru.
- Rhoddwyd Gwobr Arloesi **Tom Parry Jones** i ddau aelod o staff yr Adran Gweinyddu Cyfiawnder am lwyddo i ddatblygu ffordd i bobl ddiamddiffyn ddarparu tystiolaeth yn y llys drwy system delathrebu Lync/Skype.
- **Cydweithio** gyda heddluoedd eraill Cymru a gogledd-orllewin Lloegr ar faterion gweithredol fel troseddau trefnedig, gwrthderfysgaeth, fforensig a phlismona arfog. Mae yna lawer o elfennau o blismona sy'n fwy effeithiol pan rydym ni'n gweithio gyda'n gilydd, ac oherwydd ein lleoliad daearyddol yng ngogledd Cymru rydym ni'n gallu cydweithio'n effeithiol gyda heddluoedd eraill Cymru a chyda cydweithwyr dros y ffin.

## Chwefror 2017

- Buddsoddi mewn, a dosbarthu 1350 o **ddyfeisiau technoleg symudol** i alluogi swyddogion i chwilio am bobl, cerbydau a chyfeiriadau pan fyddant ar batrôl.
- Mae swyddogion y Tîm Troseddau Gwledig a Chynllunio Ymgyrchoedd wedi derbyn eu **cymhwyster hedfan dronau.**
- Mae ein defnydd o'r **cyfryngau cymdeithasol** yn cynyddu ac mae gennyf i a'r Heddlu bron i 100,000 o ddilynwyr ar Trydar. Mae dros 200 o swyddogion yr heddlu wedi derbyn hyfforddiant i ddefnyddio Trydar a Facebook. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn arf bwysig i gyfathrebu gyda'r cyhoedd. Rhannwyd un ymgyrch mewn perthynas â **secstio** gan 550 o bobl, gan gyrraedd cynulleidfa o 53,000.

## Chwefror 2017 (parhad)

- Dilynodd rhaglen Week In Out y BBC mi ym Mhortiwgal ac o gwmpas Cymru yn ailystyried y rhyfel yn erbyn cyffuriau.
- **Ymatebais** i filoedd o lythyrau a negeseuon e-bost mewn perthynas â'r gwasanaeth plismona yng ngogledd Cymru. Mae hwn yn offeryn craffu pwysig gan mai'r bobl sy'n derbyn y gwasanaeth yw'r bobl yn y sefyllfa orau i ddweud sut mae'r Heddlu wedi eu trin. Mae canlyniadau arolwg hyder y cyhoedd yn dangos cynnydd yn hyder y cyhoedd yn yr Heddlu.
- Bu i'r Gwasanaethau Cyfiawnder Cymunedol Integredig nodi 445 o droseddwyr sy'n cymryd cyffuriau ar gyfer triniaeth. Rhwng y gymuned a rhyddhau o'r carchar, cefnogodd y Gwasanaethau Cyfiawnder Cymunedol Integredig 447 o bobl drwy driniaeth wirfoddol a 350 drwy orchmynion cymunedol. Cyrhaeddodd y 797 achos yma 7428 o ganlyniadau.

## Mawrth 2017

- Agor carchar cyntaf yr oes fodern, **CEM Berwyn**, yn Wrecsam. Mae Protocol Ymchwilio i Droseddau wedi ei lunio sy'n amlinellu pryd fydd Heddlu Gogledd Cymru ymchwilio i drosedd a'r protocol ar gyfer rhoi gwybod i Heddlu Gogledd Cymru.
- Yn 2016/17 cynhaliodd **Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa** 144 o ymweliadau yn ddirybudd a siarad gyda 344 o garcharorion yn y ddalfa i wneud yn siŵr bod eu hawliau yn cael eu parchu.
- Datblygu menter **'Myfyriwr-Wirfoddolwr'** gyda myfyrwyr o Brifysgol Bangor; nhw fydd y ddolen gyswllt rhwng myfyrwyr a Heddlu Gogledd Cymru.
- Mae yna rŵan 171 o **swyddogion rhan-amser gwirfoddol** yn Heddlu Gogledd Cymru sydd, rhyngddyn nhw, wedi rhoi 57,942 awr o'u hamser eleni. Mae hyn yn cyfateb i 33 o swyddogion heddlu llawn amser.
- Mae'r Heddlu yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid ar ymchwiliadau gweithredol. Roedd **Ymgyrch Wisdom** yn ddull amlasiantaeth i sefydlu Grwpiau Troseddau Trefnedig gyda Safonau Masnach; roedd **Ymgyrch Mackenzie** yn ceisio mynd i'r afael â masnachwyr twyllodrus a helpu dioddefwyr diamddiffyn; ac **Ymgyrch Orphney** yn mynd i'r afael â lladron sy'n targedu pobl ddiamddiffyn.
- Recriwtio swyddogion o ardal **De Gwynedd**. Roedd hon yn fenter i recriwtio pobl o ardaloedd gwledig. Cynhaliwyd y cyfweliadau a'r hyfforddiant cynefino yn yr ardal.

# Cefnogaeth gyda'm dyletswyddau


ANN GRIFFITH, DIRPRWY GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD

Byddai'n amhosib' i mi wneud fy ngwaith heb gymorth. Mae gennyf, felly, adnoddau ar waith i ddarparu'r gefnogaeth sydd arnaf ei hangen i gyflawni fy nyletswyddau.

Eleni, fe benodais i Ann Griffith yn **Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd**. Mae Ann yn fy nghefnogi yn fy rôl ac yn fy nghynrychioli mewn nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau. Mae Ann wedi bod yn brysur eleni'n ysgrifennu Fframwaith Plant newydd a fydd yn cyfleu sut y byddwn yn craffu ar yr Heddlu wrth iddynt ymgysylltu gyda a phlismona plant a phobl ifanc ac yn manylu ar fy strategaeth fy hun ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Bydd manylion y gwaith hwn yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Mae gennyf **dîm bychan o staff ymroddgar** sy'n gweithio gyda mi i sicrhau bod Cynllun yr Heddlu a throsedd yn cael ei gyflawni a bod fy holl ddyletswyddau statudol yn cael eu bodloni. Mae'r tîm yn cynnwys dau swyddog statudol, Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyllid, a staff cymorth sy'n arbenigo mewn ymchwil, comisiynu a chyfathrebu. Mae nifer o ddyletswyddau sy'n cael eu cyflawni nad ydynt yn cael eu hadrodd fel mater o drefn, fel ymateb i adroddiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM, Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, trefnu tribiwnlysoedd apelio'r Heddlu, hwyluso cynadleddau, recriwtio a chynnal Pwyllgor Archwilio yn ogystal â recriwtio aseswyr annibynnol ac ymwelwyr dalfeydd annibynnol. Mae manylion llawn y strwythur staffio i'w gweld ar fy ngwefan.

Drwy **Fwrdd Llywodraethu'r Ganolfan Cymorth Dioddefwyr**, rwy'n craffu ar berfformiad y Ganolfan yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol a chanlyniadau arolygon adborth dioddefwyr. Cadeirydd y Bwrdd yw Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ac ymysg yr aelodau mae'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Pennaeth Adran Gweinyddu Cyfiawnder yr Heddlu, Pennaeth Uned Gwarchod Pobl Diamddiffyn yr Heddlu, Rheolwr y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr, cynrychiolwyr o'r Grŵp Cynghori Annibynnol ac eraill.

Mae **Panel yr Heddlu a Throsedd** wedi craffu ar fy ngwaith i mewn modd heriol i sicrhau fy mod yn gwneud fy ngwaith yn effeithiol. Rwy'n ystyried yr adborth rwy'n ei gael gan y panel ac mae'n fy helpu i wneud penderfyniadau allweddol ar strategaethau, blaenoriaethau'r heddlu a'r gyllideb. Rwy'n edrych ymlaen at barhau â'r berthynas adeiladol gyda'r panel.

Mae'r **Cydbwyllgor Archwilio'n** bwyllgor o bum aelod annibynnol sy'n rhan allweddol o oruchwylio trefniadau llywodraethu fy swyddfa i a Heddlu Gogledd Cymru. Drwy ystyried adroddiadau gan yr **Archwilwyr Mewnol, Swyddfa Archwilio Cymru** ac eraill, maent yn gallu darparu sicrwydd annibynnol ar ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risgiau, yr amgylchedd rheoli mewnol ac uniondeb yr adroddiadau ariannol a phrosesau llywodraethu blynyddol. Gall prosesau craffu'r Cydbwyllgor Archwilio ein helpu i weithredu a dod o hyd i welliannau pellach. Mae'r Cydbwyllgor Archwilio presennol yn tynnu at derfyn ei gyfnod o bum mlynedd ac mae fy Mhrif Swyddog Cyllid yn arwain proses i recriwtio aelodau erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'r **Bwrdd Craffu Safonau Proffesiynol** wedi'i sefydlu i fonitro a chraffu ar y modd y mae Heddlu Gogledd Cymru'n ymdrin â chwynion a chyhuddiadau o gamymddygiad er mwyn i mi allu bod yn fodlon bod y trefniadau a'r prosesau sydd ar waith yn addas ac yn effeithiol. Cadeirydd y Bwrdd yw fy Nirprwy, Ann Griffith ac mae cyngor proffesiynol wedi'i ddarparu gan y Dirprwy Brif Gwnstabl a Phennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol. Mae staff o fy swyddfa i hefyd yn hapsamplu ffeiliau cwynion sy'n ymwneud â defnyddio grym a materion eraill i sicrhau nad oes tueddiadau annheg yn y broses benderfynu a bod yr ymchwiliadau'n gymesur ac yn deg.

Yn ychwanegol at ofynion statudol mewn perthynas â chraffu ar gwynion, rydym wedi penodi **aseswyr annibynnol** i sicrhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan yr "Awdurdod Priodol" ynglŷn â chyhuddiadau o gamymddwyn difrifol yn deg ac yn gyson. Rydym hefyd wedi recriwtio **aelodau annibynnol** a **chadeiryddion cyfreithiol gymwys** i arsylwi ar wrandawiadau ynglŷn â chyhuddiadau o gamymddwyn difrifol ac rydym yn defnyddio cofrestr y Swyddfa Gartref o fargyfreithwyr annibynnol i gadeirio tribiwnlysoedd apeliadau'r Heddlu. Rwy'n hyderus bod yr Heddlu a'm Swyddfa i'n trin cwynion a chyhuddiadau o gamymddwyn yn gwbl ddifrifol. Mae Gwrandawiadau ar Achosion o Gamymddwyn gan yr Heddlu bellach yn gyhoeddus, sy'n gwneud y broses yn fwy agored a thryloyw.

Mae gennyf gynrychiolaeth ar **Banel Craffu Amlasiantaeth Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys**. Pwrpas y panel yw asesu, craffu a rheoli ansawdd yn annibynnol mewn perthynas â defnyddio gwarediadau y tu allan i'r llys yn Heddlu Gogledd Cymru. Gall y panel wneud argymhellion, rhoi adborth ar achosion unigol i swyddogion, cyflwyno eu canfyddiadau, hyrwyddo arfer orau a nodi anghenion posib' o ran datblygu polisi neu hyfforddi i'r Heddlu neu asiantaeth arall sydd ynghlwm eu hystyried. Mae'r gwaith craffu hwn yn cael ei wneud gyda chydweithwyr o asiantaethau eraill yn y gangen cyfiawnder troseddol, sy'n cynnwys Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Llys ynadon, Canolfan Cymorth Dioddefwyr a Thimau Troseddau Ieuenctid.

# Cyflawni rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Menter un o fy rhagflaenwyr yw Eich Cymuned, Eich Dewis, sy'n rhoi arian sy'n cael ei adennill gan droseddwyr yn ôl i'r gymuned.

Mae arian sy'n cael ei adennill drwy'r Ddeddf Enillion Troseddau ac o'm cronfa i, Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu, yn cael ei gyfrannu tuag at brosiectau cymunedol yng Ngogledd Cymru.

Mae Eich Cymuned, Eich Dewis yn cael ei rheoli gan **PACT (Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned)** Gogledd Cymru. Mae manylion llawn ynglŷn â sut y cafodd yr arian ei wario y llynedd i'w gweld ar dudalen 49.

Mae gennyf dîm ymroddgar o **Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol** sy'n fy helpu i graffu ar waith dalfeydd Heddlu Gogledd Cymru a'u darpariaeth. Maent yn ymweld â nhw'n rheolaidd ac yn sicrhau bod sylw'n cael ei roi i les y rhai sydd yn y ddalfa. Rwyf i'n craffu'n ofalus ar unrhyw faterion allweddol neu dueddiadau sy'n codi yn rhan o'r gwaith hwn ac yn eu trafod gyda'r Prif Gwnstabl.

Y llynedd, fe unodd Unedau Cŵn Heddlu Gogledd Cymru a Chwnstabliaeth Swydd Gaer. Synhwyrol, felly, oedd ymuno â'r cynllun ymweld i sicrhau lles cŵn, sydd eisoes yn llwyddiannus. Felly, fe benodais ddau **Ymwelydd Lles Cŵn** o Ogledd Cymru i ymuno â'r tîm yn Swydd Gaer. Mae'r grŵp o ymwelwyr cŵn bellach yn cynnal sawl ymweliad â safleoedd hyfforddi â safleoedd cytiau cŵn sydd wedi'u lleoli yn Swydd Gaer.



Fy nghyfrifoldebau craidd yw:

1. Sicrhau cynnal heddlu effeithlon ac effeithiol yng Ngogledd Cymru
2. Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am ymarfer ei swyddogaethau
3. Dod â phartneriaid cyfiawnder troseddol a diogelwch cymunedol ynghyd
4. Cydweithio gyda'r comisiynwyr heddlu a throsedd eraill a ffurfio a gweithredu strategaethau ar draws ardaloedd yr heddluoedd

## 1. Heddlu effeithlon ac effeithiol

Ers i mi ddod yn Gomisiynydd Heddlu a Throsedd dros Ogledd Cymru yr wyf wedi ymdrechu i sicrhau heddlu effeithlon ac effeithiol drwy'r strategaeth a osodir yng Nghynllun Heddlu a Throsedd 2016 ac, yn benodol, drwy ei bedwar amcan yn ymwneud â'r heddlu a throsedd:

- Gweithio mewn partneriaeth effeithiol,
- Atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol,
- Darparu ymateb priodol,
- Lleihau niwed a'r risg o niwed.

Er mai dim ond ar ddiwedd fy nhymor y gellir gwneud asesiad cywir ynglŷn ag a ydw i wedi cyflawni'r swyddogaeth hon, caiff effeithiolrwydd yr Heddlu ei ddangos yn glir yng nghasgliadau arolwg Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi PEEL 2016 (Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu) a nododd fod Heddlu Gogledd Cymru yn dda o ran effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb.

Yn adroddiad arolwg **PEEL Gwanwyn 2016** oedd yn canolbwyntio ar Gyfreithlondeb dywedodd Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi (HMIC):-

> *"Mae Heddlu Gogledd Cymru yn deall pwysigrwydd trin pobl gyda pharch a thegwch ac mae'r gweithlu yn deall y berthynas rhwng gweledigaeth a gwerthoedd yr heddlu a'r Cod Moeseg."*

Yn ystod arolwg **PEEL Hydref 2016** oedd yn canolbwyntio ar Effeithiolrwydd barnwyd fod yr Heddlu yn 'Dda' oedd yn welliant ar yr hyn nodwyd yn 2015 sef bod 'Angen Gwelliant'.

Nododd Arolygiaeth Heddluoedd ei Mawrhydi hefyd yn adroddiad PEEL 2016 fod

*"Heddlu Gogledd Cymru yn dda am amddiffyn trosedd, ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a chadw pobl yn ddiogel,"*

ac

*"Mae'r heddlu yn dda am ymchwilio i drosedd a lleihau ail droseddu. Mae'n gweithio gyda phenderfyniad i sicrhau fod troseddwyr yn cael eu dwyn o flaen eu gwell."*

Mae canlyniadau Arolwg Hyder y Cyhoedd ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ym Mawrth 2017 hefyd yn dangos gwelliant yn hyder y cyhoedd yng ngwasanaeth yr heddlu, eto tystiolaeth fod yr Heddlu yn effeithlon ac effeithiol a bod gan y cyhoedd yr hyder yn Heddlu Gogledd Cymru.

## 2. Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif

Mae'r prif ddull yr wyf yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif yn parhau i fod trwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol yr wyf yn ei gadeirio ac y mae'r Prif Gwnstabl a'i uwch swyddogion yn aelodau. Mae'r Bwrdd hwn yn cyfarfod yn rheolaidd ac yr wyf yn derbyn adroddiadau ar sawl agwedd o swyddogaethau'r Prif Gwnstabl gan gynnwys ystadegau trosedd ar gyfer y cyfnod yn union cyn y cyfarfod, y crynodeb perfformiad misol (sy'n cynnwys gwybodaeth am berfformiad lleol), adroddiadau cyllid, canlyniadau arolygon swyddogion a staff, a bodlonrwydd y cyhoedd. Yr wyf hefyd wedi gofyn i ddiweddariadau rheolaidd ar ddatblygu cynaliadwy gael eu hystyried.

Mae craffu pellach o ran yr Heddlu yn digwydd yn fy Mwrdd Craffu Safonau Proffesiynol, Panel Craffu Aml Ddisgyblaethol, Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol ac ymarferion hapsamplu amrywiol. Yr wyf wedi darparu mwy o wybodaeth ar fy rôl craffu a'r gefnogaeth sydd gen i mewn grym ar dudalen 11.

Hefyd yr wyf wedi cwrdd ag Arolygwyr Heddluoedd Ei Mawrhydi a Chomisiwn Cwynion yr Heddlu yn rheolaidd, ac yr wyf yn derbyn eu hadroddiadau ar berfformiad Heddlu'r Gogledd.

Mae nifer o drafodaethau, ymweliadau a heriau sy'n digwydd bob dydd er mwyn sicrhau fod yr Heddlu a phartneriaid eraill yn canolbwyntio ar y prif amcanion o ran plismona sy'n cael eu nodi yn y Cynllun Heddlu a Throsedd.



## 3. Dod â phartneriaid cyfiawnder troseddol a diogelwch cymunedol ynghyd.

Yr wyf yn gredwr cryf mewn gweithio mewn partneriaeth ac yn llwyr gefnogi'r penderfyniad a wnaed gan fy rhagflaenydd i roi gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol ar frig yr agenda. Mae eisoes yn amlwg i mi y bydd cefnogaeth ein partneriaid yn hollbwysig er mwyn cyrraedd yr amcanion yr wyf wedi eu gosod.

Yr wyf yn cadeirio Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru ac yr wyf yn aelod o'r byrddau a phwyllgorau canlynol sydd ar lefel ranbarthol a Chymru Gyfan:-

- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan
- Bwrdd Diogelwch Cymunedol
- Bwrdd Cynllunio Ardal
- Bwrdd Arweinyddiaeth Ranbarthol
- Grŵp Plismona Cymru Gyfan

Drwy'r fforymau hyn gallaf weld y nod o bartneriaethau effeithiol yn cael ei gyflawni ac adnabod cyfleoedd lle gallwn wella sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd a rhannu gwybodaeth berthnasol.

Ffocws allweddol fy mlwyddyn gyntaf oedd archwilio cyfleoedd ar gyfer comisiynu gwasanaethau ar y cyd ac yn uniongyrchol gyda phartneriaid i leihau trosedd ac anrhefn ac i ddarparu gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr trosedd. Fe gyfeiriaf at hyn mewn mwy o fanylder ar dudalen 46.

Yr wyf yn awyddus parhau gwneud mwy o gynnydd. Yr wyf hefyd yn comisiynu gwasanaethau gyda phartneriaid diogelwch cymunedol er mwyn lleihau trosedd ac anrhefn.

Mae gan Wynedd a Môn un Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ac un Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus, a'r un yw'r sefyllfa gyda Chonwy a Sir Ddinbych. Ond mae gan Sir y Fflint a Wrecsam eu Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu hunain. Ar brydiau, mae peth amrywiaeth o ran presenoldeb gan bartneriaid ym mhob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae hefyd peth dyblygu sylweddol yn enwedig y rhai ag ôl troed rhanbarthol. Mae hefyd gorgyffwrdd yn yr eitemau arferol ar y rhaglen ar gyfer cyfarfodydd bob Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Elfen arall o weithio mewn partneriaeth yn ymwneud â Diogelwch Cymunedol yw'r Bwrdd Arweinyddiaeth Ranbarthol, y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Rhanbarthol, y Bwrdd Cynllunio Ardal, Bwrdd Diogelu Oedolion a Bwrdd Diogelu Plant yn ogystal â grwpiau eraill yn ymdrin â materion penodol fel y Grŵp Gweithredol Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant a'r Grŵp Caethwasiaeth Modern Rhanbarthol.

Yn hanesyddol, derbyniodd y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol nifer o ffrydiau arian grant, gan gynnwys y Gronfa Diogelwch Cymunedol a'r grant Cam-drin Sylweddau. Daeth rhai o'r cyllidebau hyn yn rhan o brif grant yr heddlu o Ebrill 2013 a chawsant eu hetifeddu gan y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd oedd newydd eu sefydlu.

Ers 2013 mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi parhau i ariannu'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn ôl yr un gyfradd. Yn wreiddiol, derbyniodd Awdurdod yr Heddlu ac yn ddiweddarach y Comisiynydd Heddlu a Throsedd grant wedi ei glustnodi ar gyfer diogelwch cymunedol. Yn ddiweddarach diddymwyd y weithred o glustnodi a daeth yr arian yn rhan o brif grantiau'r heddlu, ond ni adolygwyd y grantiau diogelwch cymunedol ar y pwynt hwnnw.

Yn fy marn i mae'n hanfodol fod rhaid i gorff cyhoeddus sy'n darparu cyllid i gorff cyhoeddus adolygu yr angen yn flynyddol am y gwasanaethau a gomisiynir neu'r swyddi y telir amdanynt. Tra gall rhai gwasanaethau, fel gwaith y swyddogion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, fod wedi bod yn flaenoriaeth o dan Gynlluniau Heddlu a Throsedd blaenorol, allwn ni ddim disgwyl parhau i ariannu swyddi o'r fath os nad yw Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn ymddangos fel blaenoriaeth yn y Cynllun Heddlu a Throsedd mwyach. Rhaid i'r holl wasanaethau yr wyf yn eu comisiynau fod â deilliannau y mae modd eu cyflawni a gaiff eu cytuno mewn partneriaeth. Bydd diffyg data perfformiad yn erbyn y deilliannau a gytunwyd yn arwain at ddiddymu'r arian.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn flaenorol wedi rhoi cyllid i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol fel y gallant gomisiynu eu gwasanaethau eu hunain. Fodd bynnag, yr wyf wedi cynnig adolygiad o'r broses hon yn ddiweddar er mwyn ystyried opsiynau eraill. Mae hyn yn cynnwys p'un ai oes cyfle comisiynu gwasanaethau o'r fath yn uniongyrchol. Yn y cyfamser, mae'r sefyllfa bresennol yn parhau hyd nes bod yr holl Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi cynnal asesiadau risg ar dynnu'r cyllid hwn a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel maes o law.

Byddai rhaid rhoi tawelwch meddwl i rai awdurdodau lleol. Mae pryderon fod unrhyw newid i gomisiynu yn arwain at ostyngiad mewn cyllid diogelwch cymunedol. Fodd bynnag, nid fy mwriad yw lleihau'r cyllid, ond edrych ar opsiynau a all elwa darparwyr gwasanaeth. Bydd holl gyllid yn mynd yn uniongyrchol at y darparwyr gwasanaeth yn hytrach na mynd at weinyddu Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Y bwriad yw lleihau biwrocratiaeth a bod yn fwy cost effeithlon. Dylid cadw mewn cof mai'r hyn sydd wedi ei gwblhau ar hyn o bryd yw cyfuno grantiau a gâi eu talu'n flaenorol o gyllideb yr heddlu, gyda'r gyllideb trosedd ac anhrefn (a glustnodwyd yn flaenorol) gaiff ei dal gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Er hynny, mae ond yn iawn adolygu dosbarthiadau grantiau yn rheolaidd. Mae hyn er mwyn adlewyrchu'r blaenoriaethau o fewn y cynllun heddlu a throsedd presennol ac sicrhau gwerth am arian.

Yr wyf yn gweithio'n agos â phartneriaid yn yr awdurdodau lleol i'm cynorthwyo sicrhau gwell dealltwriaeth o sut y caiff Partneriaethau Diogelwch Cymunedol eu hariannu ac a yw'r holl bartneriaid yn cyfrannu'n deg. Yr ydym yn sicrhau fod agwedd gytbwys yn cael ei chymhwyso gan SCHTh i'r cyllid a ddosbarthwyd. Tra bod y cyllid hwn wedi ei seilio'n hanesyddol, a gall rhai ddadlau wedi ei seilio'n rhesymegol, ar y boblogaeth fe fyddwn i'n dadlau nad yw'r dull hwn (tra bod y grant wedi ei glustnodi yn gymesur â'r boblogaeth) yn ystyried yr anghenion lleol.

Dylai partneriaid fod yn dawel eu meddwl nad ydw i'n erbyn rhoi cyllid i Awdurdodau Lleol (yn arbennig os yw'r adolygiad yn dod i'r casgliad mai dyma'r trefniant mwyaf effeithiol) ond mae angen osgoi'r trefniant presennol sy'n galluogi Awdurdodau Lleol i dderbyn dau neu fwy o ffrydiau cyllido drwy Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Heddlu ar gyfer yr un bartneriaeth (yn arbennig gan fod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am oruchwylio cronfeydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Heddlu).

I orffen yr adran hon ar nodyn cadarnhaol, rhaid i mi ganmol cydweithrediad holl bartneriaid. Yr wyf yn ddiolchgar yn enwedig i'r Gwasanaeth Prawf, Cymdeithasau Tai a'r Trydydd Sector am weithio gyda mi a'r Heddlu er mwyn darparu cymorth a gwasanaethau addas yn effeithiol i'r rhai sy'n wynebu'r angen mwyaf, dioddefwyr a thystion yn arbennig.

## 4. Cydweithio gyda chomisiynwyr heddlu a throsedd eraill

Mae cydweithio gyda'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd eraill i ffurfio a gweithredu strategaethau ar draws ardaloedd yr heddlu yn swyddogaeth bwysig ac yn cyfrannu tuag at gyflawni'r Gofyniad Plismona Strategol. Yr wyf yn ymdrechu cyflawni'r swyddogaeth hon drwy gyfarfodydd rheolaidd gyda fy nghyd gomisiynwyr Cymreig a'u prif gwnstabliaid er mwyn trafod diddordebau cyffredin a materion traws ffiniol yn benodol.

Mae'r Grŵp Plismona Cymru Gyfan, sy'n cynnwys y pedwar comisiynydd heddlu a throsedd a'r pedwar prif gwnstabl yng Nghymru, wedi penodi Dirprwy Brif Gwnstabl, Robert Evans, i weithio ar gyfleoedd cydweithio yng Nghymru. Bydd gwaith y Dirprwy Brif Gwnstabl Evans a gweithio gyda'n gilydd yng Nghymru yn ffurfio rhan fwy o fy adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Yr wyf hefyd yn cwrdd yn rheolaidd â chomisiynwyr heddlu a throsedd gogledd orllewin Lloegr. Mae'r cydweithio rhwng Heddlu'r Gogledd a heddluoedd gogledd orllewin Lloegr o bwysigrwydd mawr i blismona Gogledd Cymru gan fod yr agosrwydd daearyddol yn golygu fod gennym flaenoriaethau tebyg ar gyfer ymdrin â throsedd difrifol a throsedd wedi ei drefnu yn ogystal â sicrhau fod gwasanaeth yr heddlu'n cydweithio'n weithredol.


Ar lefel genedlaethol yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yn y swydd mae'r holl heddluoedd yng Nghymru a Lloegr wedi cydweithio ar Ddarparu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ACPO a'r Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Balistig Cenedlaethol. O 6 Mehefin 2016 dechreuodd y Rhaglen Cydweithio Wedi'i Alluogi Drwy 'Niche' y Tri Heddlu (Sir Caer, Glannau Mersi a Gogledd Cymru) yn swyddogol. Bydd y rhaglen yn darparu un system reoli cofnodion 'Niche RMS' ar draws y tri heddlu.

Yn fwy lleol mae gennym bellach Uned Drylliau Tanio a Chŵn ar y cyd gyda Heddlu Swydd Gaer.

Mae'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throsedd yng Nghymru yn cefnogi datganoli plismona ac yn cytuno y bydd datganoli plismona i Gymru yn sicr o ddigwydd ar ryw bwynt yn y dyfodol.

# Blwyddyn o ddigwyddiadau

Fel y dywedais ar ddechrau'r adroddiad hwn, nid wyf yn gallu gwneud y swydd hon ar fy mhen fy hun. Yn yr un modd, ni allaf gasglu gwybodaeth heb fynychu digwyddiadau, cyfarfodydd, cynadleddau a chwrdd ag aelodau rhai o gymunedau mwyaf amrywiol a bywiog gogledd Cymru. Felly, gweler y rhestr isod sy'n nodi rhai o'r digwyddiadau yr wyf wedi'u cynnal neu fynychu yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yn y swydd.



## Ynys Môn

- Sioe Môn
- "Dweud eich Dweud", Noson Ymgynghori, Llangefni
- Ymweliad Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd â Chlwb Gymnasteg Ynys Môn
- Grwp Cynefin, Llangefni

## Gogledd Gwynedd

- Adferiad Annibynnol, Bangor
- Trafodaethau Bwrdd Camfanteisio'n Rhywiol Ar Blant, Bangor
- "Dweud eich Dweud", Noson Ymgynghori, Pwllheli
- GISDA, Blaenau Ffestiniog
- Sioe Sir Feirionnydd
- Pwyllgor UAC Sir Feirionnydd
- Siaradwr Gwadd, Llan Ffestiniog

## Conwy

- Patrôl ar droed yn Llandudno
- Lansio Caniad - Deganwy
- Siaradwr Gwadd Sefydliad y Merched Cymreig, Bae Colwyn
- Ymweld ag Ysgol John Bright, Llandudno
- Ymweld â Chartrefi Conwy

## Sir Ddinbych

- Treialon ffug, Ysgol Penbarras, Rhuthun
- Ymgyrch Rhuban Gwyn, Y Rhyl
- Ymweld â Hwb Dinbych
- Sioe Dinbych a Fflint
- Cyfarfod Siambr Fasnach a Thwristiaeth Llangollen
- "Dweud eich Dweud", Noson Ymgynghori, Y Rhyl

## Sir y Fflint

- Ymweld â Phentre Peryglon, Talacre
- Eisteddfod yr Urdd, Y Fflint
- Ymweld â Gwarchod Ar Lein (OWL), Yr Wyddgrug
- Seremoni wobrwyo Uchel Siryf Cymuned Clwyd, Yr Wyddgrug
- Siaradwr Gwadd 12 Cam at Ryddid, Treffynnon

## Wrecsam

- Ymweld â BAWSO, Wrecsam
- Ymweld â Champions House i gwrdd â Grŵp Gweithredu Adfer, Wrecsam
- Mynychwyd y Parti Eid yn Wrecsam
- Prosiect Warws Wrecsam, Arddangosfa Gelf

**Allwedd:** Sioeau Amaethyddol a Chenedlaethol | Digwyddiadau Ymgynghori | Y Trydydd Sector | Grwpiau Cymunedol

Sioeau Amaethyddol a Chenedlaethol

Mae'r haf yn rhoi cyfle i mi deithio a siarad â fy nghymuned leol yn y sioeau amaethyddol a chenedlaethol. Maent yn fannau delfrydol i ddod i wybod am faterion lleol, pryderon y cyhoedd a dod i adnabod pobl o bob cwr o ogledd Cymru.

Digwyddiadau Ymgynghori

Er mwyn ysgrifennu neu adolygu fy Nghynllun Heddlu a Throsedd, mae'n rhaid i mi ymgynghori â thrigolion gogledd Cymru er mwyn clywed eu barn am fy mlaenoriaethau. Rwyf wedi cynnal sawl digwyddiad ymgynghori ar y cyd â'r Prif Gwnstabl i wrando ar eich barn am fy amcanion heddlu a throsedd. Mae'r cyfarfodydd hyn yn bwysig iawn oherwydd eu bod yn fy ngalluogi i ddeall materion lleol a chlywed barn cymunedau gogledd Cymru.

Y Trydydd Sector

Mae ymweld ag asiantaethau trydydd sector yn hynod bwysig i mi oherwydd bod yr ymweliadau hyn yn rhoi cyfle i mi weld eu cyfraniadau ardderchog i'n cymuned. Maent yn darparu ystod eang o wasanaethau i bob aelod o'n cymdeithas ac mae'r asiantaethau hyn yn rhan allweddol o weithio mewn partneriaeth.

Grwpiau Cymunedol

Yn ogystal ag ymweld ag asiantaethau trydydd sector, rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i gael mynychu llawer o gyfarfodydd grwpiau cymunedol o Ynys Môn i Wrecsam. Mae'n hanfodol fy mod yn cefnogi'r grwpiau hyn sy'n cyfrannu mewn rhyw ffordd at bob aelod o'n cymdeithas.



# Amcanion Heddlu a Throsedd 2016/17:

Fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, yr wyf yn gyfrifol am gyfeiriad strategol plismona yng Ngogledd Cymru ac mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am faterion gweithredol.

Mae'r cyfeiriad strategol wedi'i nodi yn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

Bydd yr adran hon o'r adroddiad blynyddol yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y blaenoriaethau a amlinellwyd yng Nghynllun 2016/17.

Roedd Cynllun 2016/17 yn cadw'r tri chanlyniad a ymddangosodd yn y cynllun heddlu a throsedd cyntaf yn dilyn cyflwyno rôl y comisiynydd, sef diogelwch yn y cartref, diogelwch mewn mannau cyhoeddus a phlismona gweladwy a hygyrch. Er mwyn sicrhau'r canlyniadau hynny, gosodwyd pedwar amcan heddlu a throsedd. Y rhain oedd

1. **Gweithio mewn partneriaethau effeithiol**
2. **Atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol**
3. **Darparu ymateb priodol**
4. **Lleihau'r niwed a'r risg o niwed**

## 1. Gweithio mewn partneriaethau effeithiol

Mae gweithio gyda'n gilydd mewn partneriaethau effeithiol yn cefnogi cyflawni'r tri amcan heddlu a throsedd arall, atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, darparu ymateb effeithiol a lleihau'r niwed a'r risg o niwed.

Er mwyn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif ac i fesur perfformiad Heddlu Gogledd Cymru yn erbyn yr amcan hwn, nododd Cynllun 2016/17 bedwar mesur:-

1. Lefel aildroseddu, gan gynnwys aildroseddwyr risg uchel o drais domestig
2. Gweithredu'r cynllun rhanbarthol cam-fanteisio'n rhywiol ar blant
3. Gweithredu'r concordat iechyd meddwl Cymru gyfan
4. Datblygu a gweithredu Cynllun Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel i gefnogi'r cynllun hwn

Mae gweithio mewn partneriaeth yn galluogi ymatebion i fod yn fwy effeithiol a pharhaol yn eu budd i'r gymuned nag y byddent fel arall. Mae hefyd yn lleihau'r galw, a thrwy hynny'n cynyddu gallu staff rheng flaen o'r holl awdurdodau cyfrifol. Mae gwaith partneriaeth effeithiol yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig, i rannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth a rhannu adnoddau lle bo angen i gyflawni nod cyffredin.

Mae materion sy'n codi o achosion sy'n ymwneud â thrais domestig, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a throseddau difrifol eraill yn aml yn fwy na dim ond plismona. Maent yn cyffwrdd â phryderon cyfrifoldebau asiantaethau eraill sy'n ymwneud â diogelwch ac iechyd y cyhoedd, a dim ond mewn partneriaeth â'r asiantaethau eraill y gellir darparu ymateb effeithiol. Wrth i'r ffocws ar y troseddau hyn gynyddu, pwysleisiwyd pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth.

Drwy gydol 2016/17, yr wyf yn parhau i weithio gyda phartneriaid drwy Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru, Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau, y Byrddau Diogelu (ar gyfer plant ac oedolion) a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, i nodi ffyrdd o weithio gyda'n gilydd yn fwy effeithiol yn y cyfnod ariannol heriol hwn. Mae gwaith yn mynd rhagddo wrth gyflwyno canolfan gomisiynu ar y cyd ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gan sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y buddion o'n gwasanaethau a gomisiynir a bod yr arian yn cyrraedd y rheng flaen lle bo'r angen fwyaf.

Canfu adolygiad effeithlonrwydd yn 2016 fod y ddau alw mwyaf ar Heddlu Gogledd Cymru yn faterion yn ymwneud ag ymholiadau ynghylch pobl ar goll o gartref a salwch meddwl. Dim ond mewn partneriaeth y gellir ymateb yn effeithiol i'r materion difrifol hyn. O ganlyniad, mae rhan o fy ngweithgareddau craffu yn cynnwys sefydlu sut mae'r Heddlu yn gweithio gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Fel y nodwyd yn flaenorol, yr wyf yn awyddus i yrru agwedd gweithio rhanbarthol ymlaen, yn enwedig o ran diogelwch cymunedol. Yr wyf ar hyn o bryd yn gweithio ag awdurdodau lleol ac yn ceisio cymorth ganddynt fel y gallaf gael gwell dealltwriaeth ynghylch sut mae'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (CSP) yn cael eu hariannu ac os yw POB partner yn cyfrannu'n deg. Yn yr amgylchiadau, yr wyf wedi argymell y dylid cynnal adolygiad llawn o bob CSP i sicrhau eu bod yn darparu gwerth am arian a bod partneriaid yn cyfrannu yn unol â'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

Yn unol â'r Papur Gwyn ar ddyfodol Llywodraeth Leol, Datganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau a Chydweithredu, dylai unrhyw adolygiad Diogelwch Cymunedol o'r fath argymell model rhanbarthol ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ynghyd â chyllidebau rhanbarthol. Yn ail, mae angen cyhoeddi canllawiau ar rôl y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Cynllunio Ardal gan fod llawer o ddryswch, aneffeithlonrwydd a dyblygu ar hyn o bryd.

## Iechyd Meddwl

Mae gweithrediad Concordat Iechyd Meddwl Cymru Gyfan wedi cael ei oruchwylio gan Fwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru gyda chynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn arwain ar y darn hwn o waith. Crëwyd ffrydiau gwaith gyda'r bwriad o ddatblygu cynlluniau i gyflwyno'r Concordat. Mae datblygiadau yn cynnwys y gwaith o adolygu a gwelliant arfaethedig i hyfforddiant Iechyd Meddwl ar gyfer recriwtiaid heddlu newydd a SCCH newydd eu penodi.

Parhaodd y gwaith o weithredu Cynllun Cerdyn Keep Safe Cymru yn 2016/17 a lansiwyd y Cynllun yn swyddogol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Môn ym mis Awst 2017. Mae'r Cynllun yn caniatáu i berson diamddiffyn, gan gynnwys y rheiny sy'n dioddef salwch meddwl, gofrestru ar gyfer y cynllun a chydsynio i'w gwybodaeth gael ei chofnodi ar System Rheoli Cofnodion Heddlu Gogledd Cymru. Mae hyn yn ei dro yn rhoi cyfle i'r heddlu nodi bregusrwydd yn gynnar, y dull cyfathrebu gorau gyda'r person a chyda manylion pwynt cymorth penodol.

## Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant

Mae Cynllun Gweithredu Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) wedi cael ei weithredu ac wrth gefnogi'r Cynllun hwnnw comisiynodd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru Grŵp Tasg a Gorffen sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaethau Plant, CAHMS a Barnardo's. Prif nod y Grŵp, a oedd dan gadeiryddiaeth Heddlu Gogledd Cymru, oedd dod i ddeall y ffordd yr oedd pob awdurdod lleol yn ymdrin â mater CSE gyda'r bwriad o sicrhau cytundeb ar gyfer gweithredu llwybr clir a chyson rhwng gofal cymdeithasol a'r heddlu wrth ymdrin ag atgyfeiriadau sy'n gysylltiedig â CSE. Gwnaed adroddiad a'i gyflwyno, ynghyd â nifer o argymhellion, i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru.

Mae hyfforddiant CSE ar y cyd wedi'i gyflwyno i yrwyr tacsis yn siroedd Sir Ddinbych a Chonwy. Trefnwyd hyn gan Adran Trwyddedu'r Awdurdod Lleol perthnasol ac fe'i cyflwynwyd gan staff o dîm Onyx Heddlu Gogledd Cymru, Barnardo's a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn ogystal, mae hyfforddiant CSE pellach wedi'i gyflwyno i holl staff y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAHMS) ar draws gogledd Cymru.



## Troseddau Cefn Gwlad

Fel rhan o'r flaenoriaeth plismona hon, ymrwymodd Heddlu Gogledd Cymru i uchafu effaith y Tîm Troseddau Gwledig ar y cyd â phartneriaid.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn allweddol i lwyddiant y Tîm Troseddau Gwledig, gyda Heddlu Gogledd Cymru yn cynnal perthynas waith agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (gan gynnwys cael cyfraniad ariannol). Mae cysylltiad rheolaidd hefyd, yn enwedig o ran ymosodiadau ar dda byw, gyda'r undebau ffermio a sefydliadau eraill, megis BASC[1], RSPCA[2], y CLA[3] ac DEFRA[4]. Mae'r perthnasoedd iach hyn yn caniatau dosbarthu diweddariadau i'w haelodau ar batrymau troseddau gwledig ac atal.

Bu parhad o ran Swyddogion Gwirfoddol a gwirfoddolwyr o fewn y tîm troseddau gwledig. Mae'r cydlynydd Gwarchod Ceffylau gwirfoddol bellach wedi'i atodi i'r tîm troseddau gwledig a bydd yn darparu cyswllt pwysig i'r gymuned ceffylau yng Ngogledd Cymru drwy'r tîm.

Yn 2016/17 roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi ymgysylltu â DEFRA ar ymosodiadau ar dda byw gan gŵn a rhoddodd gyflwyniad gerbron pwyllgor dethol o AS ac Arglwyddi yn Senedd Llundain. Bellach mae gan y gwaith hwn gefnogaeth genedlaethol lawn a chychwynnwyd prosiect yn cynnwys 5 o heddluoedd gwledig allweddol y DU i fynd i'r afael â'r mater penodol o ymosodiadau ar dda byw gyda'r bwriad o ddod â newidiadau yn y gyfraith ac addysg. Mae nifer o heddluoedd o bob rhan o'r DU yn parhau i ymweld â Thîm Troseddau Gwledig Gogledd Cymru i weld sut y caiff ei sefydlu a'r dulliau y mae'n eu defnyddio.

[1]Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain, [2]Cymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid, [3]Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, [4]Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig



## 2. Atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol

Atal trosedd rhag digwydd yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddiogelu ein cymunedau a sicrhau bod pobl yn ddiogel gartref ac mewn mannau cyhoeddus.

Er mwyn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif ac i fesur perfformiad Heddlu Gogledd Cymru yn erbyn yr amcan hwn, nododd Cynllun 2016/17 chwe mesur:-

1. Lefel cyfanswm y troseddau a gofnodwyd
2. Lefel y troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr,
3. Lefel y troseddau a ddatrysir, yn ôl math
4. Lefel yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd
5. Lefel byrgleriaeth ddomestig
6. Nifer y Swyddogion Heddlu Arbennig, Gwirfoddolwyr a Chadetiaid

Ar ddiwedd blwyddyn blismona 2016/17 roedd cyfanswm y troseddau a gofnodwyd yn 40,822 o'i gymharu â 38,517 yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd hwn yn gynnydd o 5.7%. Roedd lefel troseddau'n seiliedig ar ddioddefwyr yn 6.5%.

Yr wyf yn gwerthfawrogi bod Heddlu Gogledd Cymru wedi gweld galw sylweddol yn 2016/17 o rai digwyddiadau trosedd proffil uchel, a oedd yn profi gwytnwch ond hefyd nododd waith heddlu rhagorol a chymorth oddi wrth y gymuned leol.

Yn ôl data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2016 gwelwyd cynnydd cyffredinol o 7% yng Ngogledd Cymru ym mhob trosedd ac eithrio twyll, ac roedd Heddlu Gogledd Cymru yn 8fed ar y cyd ynghyd â Heddlu Gwent yng Nghymru a Lloegr (allan o 43 heddlu) mewn perthynas â'r cynnydd hwn. Hwn oedd y cynnydd isaf ar y cyd yng Nghymru.

Cynyddodd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASB) 9.2% yn 2016/17 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn 2016/17 roedd 23,142 o ddigwyddiadau o'i gymharu â 21,188 y llynedd.

Mae arolygon boddhad diweddar yn dangos bod 82.1% o ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fodlon â 'phrofiad cyfan' y gwasanaethau plismona a gawsant.

Ar ôl adolygu'r ffigyrau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, deuthum i'r casgliad bod cyfanswm yr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, sy'n cwmpasu'r tri chategori o amgylchedd, niwsans a phersonol, yn gweld newid cam cadarnhaol ystadegol arwyddocaol yn wythnos 32, o gymedr o 484 i lawr i'r lefel bresennol o 368. Mae hyn yn ostyngiad o tua 24% ac yn awr yn dod â'r cymedr a gofnodwyd i'r lefelau bras a gofnodwyd yn 2015/2016. Gwelir bod wyth o'r deg ardal yn dilyn ac yn cyfrannu at yr un duedd ledled yr Heddlu, sy'n cael ei ddyblygu yn gyffredinol ym mhob Ardal. Y categori cofnodi uchaf yw Niwsans ASB.

Mae gan bob un o'r tair ardal plismona (Ynys Môn/Gwynedd, Conwy/Sir Ddinbych a Sir y Fflint/Wrecsam) grŵp tasgau ASB partneriaeth aml-asiantaeth sy'n goruchwylio'r ymatebion tactegol i faterion a thueddiadau a amlygwyd yn lleol. Mae grwpiau darparu yn dod o dan bob grŵp tasg ASB, gan ddarparu gofynion lefel gweithredol. Fodd bynnag, mae'r rhain yn y broses o gael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu heffeithiolrwydd.

Yn 2016/17 parheais graffu Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys (hysbysiadau, rhybuddion cosb benodedig a datrysiadau adferol ac ati) a gyflwynir gan yr Heddlu ac yr wyf wedi fy nghynrychioli ar Banel Craffu Aml-asiantaeth Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys sy'n cyfarfod yn chwarterol ac yn adrodd i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.

## 3. Darparu ymateb effeithiol

Mae gan yr heddlu, eu partneriaid yn y sector cyfiawnder troseddol ac awdurdodau cyfrifol fel yr awdurdodau lleol a'r gwasanaethau brys eraill, ddyletswydd statudol i gyflwyno ymateb effeithiol i droseddau neu faterion diogelwch y cyhoedd. Mae'r cynllun heddlu a throseddu yn nodi nifer o ddisgwyliadau wrth gyflawni'r amcan hwn, gan gynnwys cyflwyno Cod Ymarfer y Dioddefwyr a mynd i'r afael â'r bygythiadau o fewn y Gofyniad Plismona Strategol.

Er mwyn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif ac i fesur perfformiad Heddlu Gogledd Cymru yn erbyn yr amcan hwn, nododd Cynllun 2016/17 bedwar mesur:

1. Amseroedd ymateb cyfartalog presenoldeb mewn argyfyngau heddlu
2. Galwadau nad ydynt yn argyfwng yn cael eu dosbarthu fel 'galwadau wedi'u gadael'
3. Y targed arbedion ar gyfer 2016/17 yn cael eu cyflawni
4. Yr adborth a dderbyniwyd drwy arolygon dioddefwyr, yn enwedig lefelau boddhad

Yn 2016/17 mae'r amser ymateb ar gyfartaledd yn parhau i fod yn sefydlog ar 18.8 munud.

Cyflwynwyd protocol THRIVE (bygythiad, niwed, risg, ymchwiliad, bregusrwydd ac ymgysylltu) ar gyfer pob galwad yn ystafell reoli Heddlu Gogledd Cymru yn gynnar yn 2017. Mae dilyn protocol THRIVE yn galluogi'r Heddlu i asesu bregusrwydd adeg y cyswllt cyntaf ac i ddyrannu adnoddau yn unol â hynny.

Mae'r gyfradd 'gadael' ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai brys wedi gostwng mewn gwirionedd er gwaethaf cyflwyno THRIVE ar bob digwyddiad ac mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflawni ei darged o 5%.

Gall THRIVE gynyddu rhai amseroedd galw, ac mae wedi gwneud hynny, ond mae tystiolaeth yn awgrymu bod cael strwythur THRIVE wedi'i ymgorffori'n llawn ac yn gweithio'n briodol, mewn gwirionedd yn lleihau amser galw yn gyffredinol, gan ganiatáu i ni ateb mwy o alwadau.



Er ein bod wedi gweld cynnydd o 2,227 o alwadau '999' yn 2016/17, roedd Heddlu Gogledd Cymru yn dal i fod yn uwch na'i darged ac atebodd 91.3% o'r galwadau hyn o fewn 10 eiliad.

Derbyniodd yr Heddlu 29,798 o alwadau a gafodd eu graddio fel 'ar unwaith' yn ystod 2016/17 a rhagorodd ar y targed cenedlaethol trwy fynychu 93.7% o'r digwyddiadau hyn o fewn 20 munud.

Er mwyn cyflawni ymateb effeithiol, cynhaliodd Heddlu Gogledd Cymru ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus wedi'u targedu i uchafu gwelededd a hygyrchedd ei adnoddau. O ganlyniad i'r ymrwymiad hwn, rhannwyd tudalennau corfforaethol Facebook a Twitter Heddlu Gogledd Cymru yn dudalennau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Mae datganiadau i'r wasg a phost cyfryngau cymdeithasol yn parhau i gael eu cyhoeddi fel y bo'n briodol i gynyddu cyflwyniadau tystiolaeth fideo a ffotograffig yn ymwneud â throseddau gyrru y mae aelodau'r cyhoedd wedi'u gweld.

Er mwyn ymateb yn effeithiol, yr wyf wedi goruchwylio gweithrediad Heddlu Gogledd Cymru o ddatrysiad data symudol newydd i gefnogi effeithlonrwydd ei weithlu.

Datblygwyd, profwyd a rhyddhawyd y fersiwn cyntaf o'r ap data symudol newydd i grŵp cychwynnol o 50 o swyddogion a PCSO. Roedd hyn yn canolbwyntio ar ganiatáu i'r swyddogion chwilio am bobl, cerbydau a chyfeiriadau o'r ddyfais symudol i'w galluogi i weld/ cofnodi data /tystiolaeth wrth fod i ffwrdd o'r orsaf. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu'n well cyn delio â sefyllfaoedd neu ymateb i alwadau. Maent hefyd yn gallu diweddaru cofnodion o'u dyfais symudol i'w cofnodi pan fydd tasgau wedi'u cwblhau. Cyflwynwyd hyn i 150 o swyddogion pellach ym mis Mai 2017 ac yna i'r holl ddefnyddwyr wedi hynny.

Yn 2016/17 parhaodd fy swyddfa i graffu ar gydymffurfiad yr Heddlu â Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref trwy fynychu cyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr Cofnodi Troseddau'r Heddlu.

## 4. Lleihau niwed a'r risg o niwed

Mae lleihau niwed a'r risg o niwed i'n cymunedau yn bwysig iawn. Ar 29 Awst, 2014 newidiwyd lefel bygythiad y DU o derfysgaeth ryngwladol o Sylweddol i Ddwys. Mae wedi aros ar y lefel hon, gan ddim ond cael ei gynyddu i Ddifrifol ar 23 Mai, 2017.

Nid ydym yn imiwn rhag bygythiadau terfysgaeth yng Ngogledd Cymru ac mae'n parhau i gyflwyno her bellach i'r Heddlu yn ystod cyfnod o doriadau ariannol sylweddol. Mae marwolaeth drasig yr AS Llafur Jo Cox ac yn fwy diweddar yr ymosodiadau terfysgaeth ar Bont Westminster ac ym Manceinion yn rhai enghreifftiau o eithafiaeth yn y DU sy'n achosi bygythiad ac yn herio gwasanaethau Plismona yn fawr ar draws y wlad.

Mae mathau eraill o droseddu a gynhwysir o fewn yr amcan hwn yn aml yn cael eu cyflawni tu ôl i ddrysau caeedig ac mae ganddynt ddioddefwyr sy'n ddiamddiffyn ac maent yn ofni'r canlyniadau o adrodd y digwyddiad i'r heddlu. Mae cam-drin domestig yn enghraifft o hyn. Hefyd wedi'u cynnwys yn yr amcan hwn mae nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd bob blwyddyn.

Er mwyn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif ac i fesur perfformiad Heddlu Gogledd Cymru yn erbyn yr amcan hwn, nododd Cynllun 2016/17 bedwar mesur

1. Nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol (KSI) mewn gwrthdrawiadau ar y ffordd
2. Nifer y cyflawnwyr sy'n cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a arestiwyd ac a erlynwyd
3. Nifer yr achosion o bobl sydd â delweddau anweddus o blant a erlynwyd
4. Nifer y troseddau casineb sy'n cael eu hadrodd

Gostyngodd gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd lle cafodd rhywun ei ladd neu ei anafu'n ddifrifol (KSIs) gan 14.4%, i lawr o 347 i 297.

## Gwrthdrawiadau Ffordd

Mae Ymgyrch Darwen yn rhan o raglen barhaus i wella diogelwch ar y ffyrdd i bawb trwy ymgysylltu, addysg a, lle bo angen, gorfodi. Fe'i lansiwyd yn Rhug Farm yng Nghorwen ar 27 Mawrth 2017 gyda chefnogaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi ac Isadeiledd, Ken Skates AC. Drwy gydol yr ymgyrch, siaradodd cynrychiolwyr BikeSafe â beicwyr a hyrwyddo'r fenter sy'n cynnig gweithdai am ddim yng Ngogledd Cymru. Trefnwyd nifer o ddiwrnodau ymgysylltu BikeSafe ar gyfer misoedd yr haf gan gynnwys ymweliadau â'r Ponderosa, Betws-y-Coed, Corwen a Llangollen. Gall defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol hefyd ddilyn yr ymgyrch trwy'r hashnod #OpDarwen a #BeicioDiogel. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i blismona llwybrau blaenoriaeth ledled Gogledd Cymru trwy gydol yr ymgyrch i leihau nifer yr anafusion beiciau modur KSI.

## Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant

Mewn perthynas â cham-fanteisio'n rhywiol ar blant, cafodd 145 o gyflawnwyr CSE eu harestio yn 2016/17 ac fe gafodd 322 o achosion o ddelweddau anweddus o blant eu canfod (sy'n cynrychioli cynnydd o 60.1% o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol).



## Cam-Drin Domestig a Thrais yn Erbyn Merched a Genethod

O safbwynt gwasanaethau cam-drin domestig, mae nifer o bartïon yn cytuno bod y dirwedd ariannu bresennol ar gyfer sefydliadau ledled Cymru a Lloegr yn dameidiog ac yn aml yn anodd i ddioddefwyr ei llywio. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn bydd Adolygiad Tirwedd Ariannu dan arweiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn edrych ar gynaliadwyedd y dirwedd ariannu bresennol ar gyfer gwasanaethau cymorth dioddefwyr trais. Mae hyn yn cysylltu â Strategaeth Trais yn erbyn Merched Llywodraeth Cymru gan fod y Strategaeth yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod cyllid yn gynaliadwy a bod y gwasanaethau a gomisiynir yn cefnogi dioddefwyr yn effeithiol. Mae fy swyddfa yn cymryd rhan yn yr ymarfer cwmpasu hwn ar sail Cymru gyfan a Gogledd Cymru, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cydlynu'n effeithiol ar gyfer dioddefwyr.

Mae'r SCHTh yn aelod o Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraeth Cymru, a'i bwrpas ohono yw cefnogi cyflwyno'r Cynllun Darparu Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) trwy adolygu'r holl drefniadau ariannu a ffynonellau sy'n cefnogi gwasanaethau ac ymyriadau VAWDASV ledled Cymru ar hyn o bryd. Gwneir hyn gyda'r bwriad o sicrhau bod ffrydiau ariannu yn cael eu halinio'n well i gefnogi cynllunio a chomisiynu gwasanaethau yn seiliedig ar dystiolaeth yn rhanbarthol gyda pheth comisiynu gwasanaeth cenedlaethol yn seiliedig ar dystiolaeth. Dechreuodd y grŵp ei waith yn 2016 a disgwylir iddo orffen ei waith erbyn diwedd 2017, gan ddarparu model cyllido cynaliadwy a argymhellir a chanllawiau statudol drafft i Grŵp Cynghori Cenedlaethol VAWDASV, dan gadeiryddiaeth Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Gymunedau a Phlant.

Yn 2016/17 sefydlwyd Panel Craffu Diogelu Pobl Ddiamddiffyn o fewn Heddlu Gogledd Cymru ac yr wyf hefyd yn cael fy nghynrychioli ar y Panel hwnnw. Diben y Panel hwn yw trafod meysydd thematig Diogelu Pobl Ddiamddiffyn (Trais a Throseddau Rhyw Difrifol, Cam-drin Domestig, Trais yn seiliedig ar Anrhydedd, Priodas Dan Orfod, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, Stelcio / Aflonyddu Iechyd Meddwl, Pobl ar Goll, a Cham-drin Plant ac ati) i samplu'r holl feysydd ar sail strwythur treigl. Disgwylir i aelodau'r Panel rannu'r themâu allweddol a'u dysgu gyda chydweithwyr yn yr adrannau amrywiol ac er mwyn cynorthwyo â hyn, mae crynodeb o ganfyddiadau'r panel ar gael drwy'r cadeirydd ar ffurf 'gwersi a ddysgwyd'.

# Crynodeb o'r Casgliadau

Mae perfformiad yn cael ei fesur trwy gymharu 2016/17 gyda blwyddyn Ebrill 2011 i Fawrth 2012. Gwneir y gymhariaeth yn erbyn y flwyddyn benodol honno am mai dyna'r flwyddyn lawn ddiwethaf cyn i'r llywodraethu polisi newid yn Nhachwedd 2012 gyda'r etholiadau comisiynwyr heddlu a throseddu cyntaf.

Rwyf hefyd wedi cyflwyno cymhariaeth yn erbyn y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2015/16) er mwyn adnabod unrhyw feysydd o bryder sydd hefyd yn fy helpu i archwilio'r Prif Gwnstabl ac i'w wneud yn gyfrifol wrth lunio fy Nghynllun.


| Amcan | Mesur | 2016/17 | 2015/16 | 2011/12 Gwaelodlin | % newid o'r waelodlin | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Atal Trosedd | Cyfanswm y drosedd a gofnodwyd | 40,822 | 38,517 | 41,947 | -2.7% | ↓ |
| | Troseddau sy'n seiliedig ar Ddioddefwyr | 37,074 | 34,751 | 41,214 | -10.0% | ↓ |
| | Troseddau a ddatrysir, yn ôl math | 25.7% | 30.2% | 34.5% | -8.8pp | ↓ |
| | Ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd | 23,142 | 21,188 | 30,160 | -23.3% | ↓ |
| | Byrgleriaeth ddomestig | 1,393 | 1,341 | 1,872 | -25.6% | ↓ |
| | Cynyddu nifer y Swyddogion Heddlu Arbennig, gwirfoddolwyr a chadlanciau | 410 | 342 | Amherthnasol | Amherthnasol | - |
| Darparu ymateb priodol | Amseroedd ymateb cyfartalog presenoldeb mewn argyfyngau heddlu (munudau) | 18.8 | 17.7 | 15 | +25.3% | ↑ |
| | Cyfanswm y galwadau nad ydynt yn argyfwng yn cael eu dosbarthu fel 'galwadau wedi'u gadael' | 4.8% | 5.3% | 6.5% | -1.7pp | ↓ |
| | Yr adborth a dderbyniwyd drwy arolygon dioddefwyr | 81.1% | 83.9% | 80.6% | +0.5pp | ↑ |
| Lleihau'r niwed a'r risg o niwed of harm | Nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol (KSI) mewn gwrthdrawiadau ar y ffordd | 297 | 338 | 382 | -22.2% | ↓ |
| | Lefel o ail-droseddu | 5434 (crimes generated – all crime) | 7,120 | 10,035 | -45.8% | ↓ |
| | Nifer y cyflawnwyr sy'n cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a arestiwyd ac erlynwyd | 145 | 107 | Amherthnasol | Amherthnasol | - |
| | Nifer yr achosion o bobl sydd â delweddau anweddus o blant | 322 | 214 | 16 | 1912.5% | ↑ |

Yn 2014 cynhaliodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi arolwg o safonau ac arferion cofnodi trosedd ar gyfer holl heddluoedd Cymru a Lloegr (dyma arolwg o ba mor fanwl oedd yr heddluoedd yn cofnodi trosedd). Roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflawni cyfradd cydymffurfio o 94% ac yn y pum heddlu uchaf. Mae hyn o bwys sylfaenol. Mae hyn yn dweud wrthyf i, a phobl Gogledd Cymru, bod y cynllun wedi'i lunio'n seiliedig ar ddata cywir. Mae'n cadarnhau bod fy ngwaith o graffu ar berfformiad yr heddlu yn seiliedig ar wybodaeth gywir. Archwiliwyd yr Heddlu ymhellach ar gywirdeb data trosedd ym Mai 2017 a byddaf yn eich darparu â rhagor o wybodaeth am hynny eleni.

Ym Mawrth 2016, rhoddodd yr Heddlu argymhelliad 12 ar waith allan o adroddiad Cofnodi Trosedd lle mae Dioddefwyr yn Cyfri Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi. Mae Argymhelliad 12 yn gofyn i heddluoedd newid eu hamser cofnodi trosedd o 72 awr i 24 awr er mwyn sicrhau bod yr holl drosedd yn cael ei gofnodi ar y pwynt cyswllt cyntaf. Mae'r newid hwn yn darparu sicrwydd i ddioddefwyr bod eu hadroddiad yn cael ei gymryd o ddifri.

# Yr Her Ariannol

Ar 25 Tachwedd 2015, yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a Datganiad yr Hydref, fe ymrwymodd y llywodraeth i ddiogelu gwariant cyffredinol yr heddlu yn unol â chwyddiant.  Fodd bynnag, deuai hyn gyda cafeat na fyddai hyn yn digwydd oni bai fod Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn gofyn am yr uchafswm drwy dreth cynghorau.  Mae'r graff yn dangos fel y mae gwariant cyffredinol ers 2010/11 wedi cynyddu llai na 4% o ran arian a bod grant y llywodraeth wedi gostwng bron i 13% dros yr un cyfnod a'i fod wedi parhau i ostwng ers y cyhoeddiad fis Tachwedd 2015, er bod hynny'n digwydd yn fwy graddol nag o'r blaen.




Wrth ystyried chwyddiant a chyfrifoldebau newydd, mae toriadau gwerth bron i £30 miliwn wedi bod ers 2010/11 a chan fod posib' i'r cyfnod o gyni ariannol bara tan 2022 a thu hwnt, oni bai fod newid ym mholisïau'r llywodraeth, fe fydd toriadau'n parhau dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig cyfredol a'r nesaf.

Yn ychwanegol at yr ansicrwydd ynglŷn â faint o gyllid cyffredinol sydd ar gael ar gyfer heddluoedd yng Nghymru a Lloegr ar gyfer 2018/19 a thu hwnt, mae cryn dipyn o amwysedd o ran Fformiwla Gyllid Heddluoedd (sy'n pennu faint o grant sy'n cael ei ddyrannu i bob ardal heddlu) a Dyraniadau Canolog y Swyddfa Gartref (a elwid gynt yn frig-dorri) lle mae'r Swyddfa Gartref yn cadw cyfran o gyllideb yr heddluoedd cyn dyrannu'r gweddill yn unol â'r fformiwla.  Mae cyhoeddiadau fel arfer yn cael eu gwneud ganol mis Rhagfyr bob blwyddyn ac ar gyfer blwyddyn yn unig maent wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf, sy'n gwneud gwaith cynllunio ariannol tymor canolig yn hynod o heriol.

Ar yr un pryd, bu'n rhaid cwrdd â chostau ychwanegol, a oedd y tu hwnt i fy rheolaeth i a rheolaeth y Prif Gwnstabl.  Er enghraifft, fe gynyddodd cyfraddau Yswiriant Gwladol ar 6 Ebrill 2016; ac o fis Ebrill 2017, fe gyflwynwyd yr Ardoll Prentisiaethau. Ar hyn o bryd, mae'n aneglur a fydd modd defnyddio'r ardoll hwn i hyfforddi heddweision (yn yr un modd ag sy'n digwydd yn Lloegr).  Ar ben hynny, mae disgwyl i gost hyfforddi gynyddu gan y bydd angen i swyddogion newydd astudio am radd, un ai cyn ymuno, neu yn rhan o'u rhaglen hyfforddi.


Gan ystyried ein bod eisoes wedi arbed £30 miliwn, y pwysau ychwanegol sydd arnom o ran costau a pharhad posib' y cyfnod o gyni ariannol, bydd angen gwneud mwy o doriadau, a fydd, yn anochel, yn arwain at newidiadau i drefniadau plismona yng Ngogledd Cymru.


# Cyllid ac Arian

## Cyllideb yr Heddlu

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am osod y gyllideb a ddarperir i’r Prif Gwnstabl er mwyn cyflawni gwaith plismona yng Ngogledd Cymru.  Dyrannwyd cyllideb net o £139 miliwn i’r Prif Gwnstabl ar gyfer 2016/17. Defnyddiwyd y swm o £1.9 miliwn a oedd yn weddill ar gyfer Cronfa'r Comisiynydd (sy'n ariannu mentrau fel diogelwch cymunedol, ymyrraeth gyffuriau a chyfiawnder ieuenctid) ac ar gyfer costau fy swyddfa i.

Er bod grantiau’r llywodraeth ganolog, a bennwyd gan y Swyddfa Gartref, yn cyfrif am 52% o’r cyllid, cafwyd 48% o'r cyllid gan drethdalwyr lleol.  Mae’r Datganiadau Cyfrifon drafft ar gael ar fy ngwefan ac fe fydd y cyfrifon wedi’u harchwilio’n cael eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Medi 2017.




Roedd blwyddyn ariannol 2016/17 yn her, wrth i ni wneud toriadau pellach o £2.838 miliwn.  Ynghyd â thoriadau o £2.686 miliwn sydd i’w gwneud yn 2017/18 ac o ystyried chwyddiant a phwysau eraill, mae gwir gyllideb yr heddlu yng Ngogledd Cymru, ar hyn o bryd, £30 miliwn yn llai nag yr oedd yn 2010/11.  Er bod rhagolygon mwy cadarnhaol ers 2015, mae’r sefyllfa’n dal yn un heriol.

## Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Gosodwyd cyllideb flynyddol ar gyfer 2016/17 o £741,000 – 0.53% o'r gyllideb gyfan ar gyfer yr heddlu yng Ngogledd Cymru.  Ar gyfer 2017/18, £792,673 yw’r gyllideb. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu cyfran fy swyddfa i o'r Ardoll Prentisiaethau a chynnydd mewn ffioedd archwilio mewnol (mae'r gyllideb ar gyfer hynny'n cael ei chadw dan gyfrifon fy swyddfa i).

## Cyflawni’r Strategaeth Ystadau

Mae Strategaeth Ystadau 2012-16 bellach wedi’i chyflawni a bydd strategaeth newydd yn cael ei drafftio cyn diwedd 2017.

Mae gwaith sylweddol wedi’i wneud yn ystod 2016/17. Mae disgwyl i Gyfleuster Rheolaeth a Dalfa’r Dwyrain yn Llai a Gorsaf Heddlu canol tref Wrecsam gael eu cwblhau yn 2018. Mae Gorsaf Heddlu newydd yn cael ei hadeiladu ar safle'r hen un yn Llandudno, sydd i fod i agor ym mis Rhagfyr 2017.





*Argraff arlunydd o Orsaf Heddlu Llandudno a Chyfleuster Rheolaeth a Dalfa’r Dwyrain*

## Comisiynu Gwasanaethau

Mae comisiynu yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn ymwneud â defnyddio’r holl adnoddau sydd ar gael, o arian hyd at bartneriaethau, mor effeithiol â phosib' gan sicrhau'r deilliannau a'r gwerth gorau mewn modd hirdymor a chynaliadwy.

Mae’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi amlinellu wyth o egwyddorau comisiynu da, yn gymorth i wneud arbedіadau effeithlonrwydd a darparu manteision cymunedol, sydd wedi'u tanategu gan:-


- ddeall anghenion defnyddwyr a chymunedau lleol (gan gynnwys ceisio adborth) a rhoi hynny wrth galon y broses gomisiynu
- defnyddio arbenigedd y Trydydd Sector[1] a sefydliadau sy’n arwain y farchnad i ddeall y cyfraniad y gallent hwy ei wneud ac ystyried buddsoddi yn y meysydd hynny i wella’r ffordd rydym yn cyflawni ein gwasanaeth

Mae'n rhaid i hyn weithio ar y cyd â darparu gwerth cymdeithasol ar ffurf lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol i bobl a chymunedau Gogledd Cymru.

Mae fy ngwaith comisiynu i wedi'i ddatblygu i ddarparu gwasanaethau mewn perthynas â dau faes gwaith penodol sef y Grantiau Troseddau ac Anhrefn o Gronfa'r Comisiynydd a Chronfa Gwasanaethau i Ddioddefwyr.

## Cronfa'r Comisiynydd

Mae Cronfa'r Comisiynydd wedi'i ffurfio o ffynonellau cyllid grantiau a neilltuwyd yn flaenorol ac mae'n cynnwys y Gronfa Diogelwch Cymunedol, Cronfa Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau (DIP), a Chyllid Atal Troseddau Ieuenctid a Chamddefnyddio Sylweddau. Mae dyraniadau cyllid y flwyddyn rhwng pob sefydliad wedi'u nodi isod.




O 2017/18 ymlaen, mae'r holl gymorth ariannol ar gyfer y Timau Troseddau Ieuenctid a ddarparwyd yn flaenorol gan yr Heddlu ac o Gronfa'r Comisiynydd wedi'i gyfuno a bydd bellach yn cael ei weinyddu'n gyfan gwbl gan fy swyddfa i. Mae'r newid bach hwn yn ei wneud yn haws i awdurdodau lleol ei weinyddu, mae'n rhoi gwell goruchwyliaeth i mi dros gyfraniadau i awdurdodau lleol ac mae'n rhyddhau amser gwerthfawr y staff, sy'n galluogi i staff yr Heddlu ganolbwyntio ar gefnogi heddweision.


[1]Mae'r Trydydd Sector yn cyfeirio at sefydliadau a chymdeithasau nad ydynt yn rhai llywodraethol nac yn gwneud elw, gan gynnwys elusennau, grwpiau gwirfoddol a chymunedol, cwmnïau cydweithredol, ac ati.

## Cronfa Gwasanaethau i Ddioddefwyr

Yn ychwanegol at y Gronfa Diogelwch Cymunedol, rwy'n derbyn grant gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder bob blwyddyn i gomisiynu gwasanaethau i gefnogi dioddefwyr. Yn ystod 2016/17, fe gomisiynais i'r gwasanaethau hyn:

- Y Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr
- Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA)
- Ymgynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA)

Bu i bob un o'r gwasanaethau hyn wella'r gofal a'r gefnogaeth a roddwyd i ddioddefwyr troseddau ar draws Gogledd Cymru ac maent wedi'u hailgomisiynu yn 2017/18.



Cefnogwyd cyfanswm o 43,683 o ddioddefwyr ar draws y rhanbarth drwy'r gronfa hon. Ar ben hynny, daeth â chymorth refeniw ychwanegol o £221,645.81 i gefnogi'r gweithgarwch hwn ledled Gogledd Cymru.

Rwyf hefyd wedi comisiynu gwasanaethau i gefnogi dioddefwyr Cam-drin Rhywiol ar Blant. Mae'r gwasanaethau hyn yn hanfodol i ddarparu cymorth y mae angen mawr amdano i ddioddefwyr sydd wedi cael eu heffeithio gan effeithiau hirdymor y trosedd hwn. Mae'r gwahaniaeth y gall y gwasanaeth hwn ei wneud i fywydau dioddefwyr wedi'i ddangos yn y gwerthusiadau sydd wedi'u cynnal ac mae i'w weld yn y datganiadau isod:

*"Mi ydw i wedi goresgyn problemau oedd gen i am flynyddoedd"*

*"Roedd cwnsela o fantais fawr i mi o ran materion teuluol a gwaith"*

*"Mae cwnsela wedi fy ngalluogi i fyw fy mywyd eto, ac wedi rhwystro fy iechyd meddwl rhag gwaethygu"*

*"Mi ydw i wedi gallu mynd yn ôl i'r coleg i barhau gyda fy ngradd"*

*"Rydw i wedi troi cornel yn fy mywyd ar ôl cael cwnsela"*

*"Mae wedi fy nghadw i'n ddiogel rhag meddwl am gyflawni hunanladdiad"*

*"Mae gen i gar ac mi ydw i wedi bod yn rhy ofnus a phryderus i yrru, ac yn ddihyder. Mi ydw i'n gyrru eto ar ôl cael cwnsela ac rwy'n dechrau ei fwynhau"*

*"Heb fy ngweithiwr cefnogi, fyddwn i ddim wedi gallu mynd drwy'r achos llys".*

Ers 2015-16, mae cyllid wedi'i ddarparu ar gyfer gwaith pwysig Gwasanaeth Cam-drin Rhywiol Plant a Phobl Ifanc. Dyrannwyd y gefnogaeth hon eto y llynedd ac rwyf wedi cytuno i barhau â'r cyllid hwn ar gyfer 2017-18. Pan sefydlwyd y gwasanaeth, dyna oedd y tro cyntaf i blant a theuluoedd allu cael y gefnogaeth hon yng Ngogledd Cymru. Mae'r gwasanaeth hwn yn hanfodol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n dioddef camdriniaeth rywiol a'u teuluoedd er mwyn iddynt allu derbyn gwasanaeth cymorth hanfodol, di-dor nad yw'n amodol ar benderfyniad cyhuddo cadarnhaol.



Mae cam-drin domestig yn flaenoriaeth allweddol ac mae'n cael ei ariannu drwy Gronfa'r Comisiynydd a Chronfa Gwasanaethau i Ddioddefwyr. Mae'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod y lefel gwasanaeth bresennol yn cael ei chynnal a bod y ddarpariaeth yn cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig sy'n ddynion ac yn ferched. Rhoddir cymorth drwy sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cadw'n ddiogel ac annog a galluogi defnyddwyr gwasanaeth i drafod opsiynau ymarferol a datblygu cynlluniau diogelwch a chymorth unigol neu gymorth i deuluoedd. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi dioddefwyr troseddau penodol fel trais domestig a materion sy'n ymwneud â'r teulu.

Mae dioddefwyr wedi rhoi'r adborth canlynol ar y gefnogaeth annibynnol:

*"Tydw i ddim yn teimlo fy mod ar fy mhen fy hun bellach. Mae'n dda gwybod bod cymorth ar gael. Roeddwn i'n arfer bod ofn ffonio'r heddlu, ond mi ydw i bellach yn gwybod mai yno i fy nghefnogi maen nhw"*

*"Rwy'n diolch i'r Cynghorydd Annibynnol am beidio â rhoi'r gorau i geisio fy helpu i"*

Mae'n bwysig nodi y byddai'r sefydliadau hyn yn ei chael yn anodd iawn cefnogi'r dioddefwyr yn y gymuned heb yr ymrwymiad hwn gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

# Edrych i'r Dyfodol

## Fy Amcanion Plismona

Mae trosedd wedi newid. Ers i mi ymddeol o wasanaeth yr heddlu naw mlynedd yn ôl, mae Heddlu Gogledd Cymru bellach yn delio â mathau gwahanol iawn o drosedd nas adroddwyd amdanynt pan roeddwn i'n Swyddog yr Heddlu, er enghraifft seiberdroseddu, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a chaethwasiaeth modern. Roedd hyn yn agoriad llygad i mi gan fod y rhain yn droseddau cudd y gallant fod yn anweladwy. Fel y gwelir ar y diagram isod, mae cymaint â 95% o droseddau y gallant fod yn anweladwy, ond rhaid i ni sicrhau yr eir i'r afael â'r rhain.




Felly, rwyf wedi diwygio'r amcanion plismona sy'n pennu'r cyfeiriad ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru a dyma fydd sail fy ngwaith mewn partneriaeth â'r Prif Gwnstabl, a'i ddal yn atebol am ddarparu gwasanaethau plismona.

Datblygwyd yr amcanion plismona diwygiedig yn dilyn ymgynghoriad gyda fy ymgynghorai statudol, y prif gwnstabl, ein prif budd-ddeiliaid, ein cydweithwyr o'r trydydd sector a dros 1000 o drigolion yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod y Cynllun yn adlewyrchu safbwyntiau ein cymunedau ynghyd â'r galw gwleidyddol, partneriaeth a phlismona newidiol.

Felly, mae fy amcanion plismona fel a ganlyn:-

**Cam-drin Domestig**

**Caethwasiaeth Modern a Masnachu mewn Pobl**

**Cam-drin Rhywiol**

**Grwpiau Trosedd Cyfundrefnol**

**Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel**

## Cam-drin domestig

Mae Cam-Drin Domestig yn digwydd bob dydd, ym mhob rhan o'r DU, gan gynnwys Gogledd Cymru. Bob dydd mae Heddlu Gogledd Cymru yn cofnodi 26 o ddigwyddiadau domestig ar gyfartaledd. Dros y saith mlynedd diwethaf, lladdwyd 936 o ferched gan ddynion yng Nghymru a Lloegr.

Cam-Drin Domestig yw'r risg uchaf sy'n wynebu Heddlu Gogledd Cymru oherwydd yr effaith eang ar y dioddefwr (corfforol, seicolegol ac ariannol), y nifer o droseddau a gofnodwyd a thuedd sydd ar gynnydd.

Roedd cefnogaeth y cyhoedd yn ysgubol gyda Cham-Drin Domestig yn un o fy meysydd blaenoriaeth, ac rydym yn ffodus yng Ngogledd Cymru bod gennym drydydd sector o bobl ymrwymedig a phrofiadol yn barod i gefnogi ein dioddefwyr.

## Caethwasiaeth Modern a Masnachu mewn Pobl

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Caethwasiaeth Modern wedi dod yn flaenoriaeth allweddol ym maes plismona. Mae ei fodolaeth yng Ngogledd Cymru yn amlwg a'r niwed y mae'n ei achosi yn bellgyrhaeddol. Cydnabu bod angen rôl yn y Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr i gefnogi dioddefwyr caethwasiaeth modern, ac rwyf wedi comisiynu penodiad Swyddog Cefnogi Caethwasiaeth Modern i weithio o'r Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr ochr yn ochr â'r Heddlu i gefnogi dioddefwyr. Bydd modd i mi adrodd ar yr effaith y bydd y penodiad hwn wedi ei gael ar ddioddefwyr Caethwasiaeth Modern yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

## Cam-drin Rhywiol

Mae nifer yr achosion o drais ac ymosodiadau rhywiol difrifol eraill, a gyflawnir yn aml gan bartneriaid neu bobl sy'n hysbys i'w dioddefwyr, yr adroddir i'r heddlu yn uchel. Fodd bynnag, mae llawer yn parhau heb adrodd amdanynt ac mae angen gwneud mwy i annog dioddefwyr i ddod ymlaen, waeth pryd y cyflawnwyd y drosedd.

Caiff troseddau nad ydynt yn ddiweddar eu trin yr un mor broffesiynol a chyda'r un parch â throseddau presennol.

Mewn perthynas â cham-fanteisio'n rhywiol ar blant, cafodd cynllun Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant rhanbarthol aml-asiantaeth ei ddatblygu peth amser yn ôl. Bydd tîm ONYX a sefydlwyd gan Heddlu Gogledd Cymru i fynd i'r afael â'r troseddau ffiaidd hyn yn parhau i ddatblygu eu gwaith ymhellach.

Byddaf yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau y caiff popeth ei wneud i ddiogelu'r plant hyn a'u bod yn cael blaenoriaeth haeddiannol.

## Trosedd Gyfundrefnol

Mae'r Llywodraeth yn ystyried trosedd difrifol a chyfundrefnol fel un o'r bygythiadau mwyaf i ddiogelwch gwladol y DU ac mae'n costio mwy na £24 biliwn y flwyddyn i'r DU. Mae Strategaeth Trosedd Difrifol a Chyfundrefnol Genedlaethol wedi'i hadeiladu ar y fframwaith a ddefnyddir ar gyfer gwrthderfysgaeth ac mae'n nodi sut y caiff cyfleoedd eu cymryd i atal pobl rhag cymryd rhan mewn trosedd difrifol a chyfundrefnol, cryfhau diogelwch yn ei erbyn ac ymatebion iddo, ac yn bwysicaf oll, mynd ar ôl y troseddwyr y tu ôl iddo, gan eu cosbi a rhoi stop ar eu gweithgareddau.

Amcangyfrifir mai costau'r Grwpiau Trosedd Cyfundrefnol ar draws amrywiol fathau o droseddau yw: cyflenwad cyffuriau (£10.7 biliwn), twyll cyfundrefnol (£8.9 biliwn) a mathau o drosedd mewnfudo cyfundrefnol (£1.0 biliwn).

Mae asesiadau bygythiadau, risg a niwed wedi tynnu sylw at y ffaith mai Trosedd Gyfundrefnol a chyflenwad cyffuriau Haen Uwch sy'n dod â'r niwed mwyaf i'n cymunedau. Mae gweithdrefnau cynllunio effeithiol ar waith i fynd i'r afael â'r Defnydd Troseddol o Ynnau, Cyflenwad a Meddiant Cyffuriau, Cam-Drin a Cham-fanteisio'n Rhywiol ar Blant, Terfysgaeth ac Eithafiaeth Ddomestig.

## Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel

Mae presenoldeb gweledol yr heddlu yn atal troseddau sy'n digwydd mewn lleoedd cyhoeddus, yn cysuro'r rhan fwyaf o'r cyhoedd ac yn atgyfnerthu cysylltiadau â'r heddlu. Fodd bynnag, fel y dywedais yn gynharach, mae mwy o droseddau'n cael eu cyflawni ar-lein nag ar y strydoedd bellach. Yn unol â hynny, rhaid i'n hadnoddau lleihaol ganolbwyntio ar y meysydd hyn o'r bygythiad, risg a niwed mwyaf.

Fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, mae hyn yn peri her anferth i mi. Rwy'n benderfynol bod rhaid i'n hadnoddau lleihaol ganolbwyntio ar feysydd troseddoldeb a bregusrwydd difrifol, ond eto mae ein cymunedau'n dweud dro ar ôl tro eu bod am gan heddlu gweledol.

Mae darparu gwelededd yn heriol iawn a rhaid i ni wahaniaethu rhwng bod yn weledol a bod yn hygyrch.

Byddaf yn parhau i gwrdd â'r Prif Gwnstabl yn rheolaidd fel y gall roi'r diweddaraf i mi ar sut mae Heddlu Gogledd Cymru yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau sydd wedi'u pennu. Byddaf yn parhau i ddatblygu fy strategaeth craffu, gyda'r bwriad o graffu ar yr heddlu o ran ei swyddogaeth adnoddau dynol, ymgysylltiad a chydweithrediad.

## Gosod cyllideb ar gyfer buddsoddi

Rhan bwysig o'm rôl fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yw pennu'r gyllideb ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru. Nid yw hyn yn rhywbeth rwy'n ei gymryd yn ysgafn. Mae angen i mi ariannu'r heddlu er mwyn atal a lleihau trosedd, rhoi pobl ddiamddiffyn a dioddefwyr wrth wraidd y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu, a diogelu a chefnogi plismona rheng flaen.

Mae arian cyfredol yr heddlu wedi gwneud y gwaith o bennu'r gyllideb yn heriol. Mae Heddlu Gogledd Cymru eisoes wedi cyflawni arbedion effeithlonrwydd o £30m ers i Raglen Cynildeb y Llywodraeth ddechrau yn 2010, ond mae'n rhaid cyrraedd gostyngiad pellach o £2.238m i gynnal cyllideb gytbwys; ar yr un pryd mae'n bwysig mynd i'r afael â'r amcanion plismona a bodloni'r holl ofynion plismona yn ein cymunedau.

Byddaf yn parhau i weithio gyda'r Prif Gwnstabl i nodi sut y gellir gwneud arbedion sylweddol i fodloni'r bwlch yn y gyllideb.

Rwyf hefyd yn aelod o Grŵp Cyllid ac Ad-drefnu Cymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, a byddaf yn parhau i lobio am ddyrniad teg o gyllid gan y Swyddfa Gartref i osgoi rhoi mwy o bwysau ar drigolion Gogledd Cymru drwy'r praesept plismona.

## Eich Cymuned, Eich Dewis

Rwy'n bwriadu parhau gyda menter fy rhagflaenydd a rhoi fy arian i un ochr i gefnogi cymunedau a sefydliadau lleol sydd am wneud gwahaniaeth yng Ngogledd Cymru. Mae hon yn fenter wych gan mai trigolion Gogledd Cymru sy'n pleidleisio ar ba brosiectau cymunedol y dylai gael cyllid. Rwy'n bwriadu dyrannu hyd at £42,000 i amrywiol brosiectau yn y flwyddyn ariannol nesaf, a byddwn yn dechrau croesawu cynigion ar gyfer cyllid ym mis Medi 2017. Byddaf hefyd yn sicrhau y caiff arian ei ddosbarthu'n deg i'r chwe sir yng Ngogledd Cymru. Mae'r tabl isod yn dangos sut y dyrannwyd y cyllid yn 2016/17.

| | |
|---|---|
| Clwb Gymnasteg Ynys Môn | 1,738 |
| CPD Ieuenctid Llangoed 2014 | 2,500 |
| Clwb Criced Llandudno | 2,500 |
| CPD Ieuenctid Corwen | 2,000 |
| Ysgol Uwchradd Prestatyn | 2,500 |
| Cymdeithas OWL Sir y Fflint a Wrecsam | 2,500 |
| Sir y Fflint yn Erbyn Trosedd Busnes | 2,500 |
| Flintshire Against Business Crime | 2,500 |
| RNLI Y Bermo a Chaergybi | 2,500 |
| Clwb Gymnasteg Bangor | 2,490 |
| CAIS Cyf | 2,500 |
| Sefydliad Cymunedol y Cae Ras, Wrecsam | 2,500 |
| Elusen Aloud | 5,000 |
| Cymdeithas Pobl Fyddar Gogledd Cymru | 5,000 |
| Partneriaeth Maesgeirchen, Bangor | 1,270 |
| | **39,998** |

## Cyffuriau

Yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yn fy swydd, rwyf wedi bod yn glir am fy safbwyntiau ar fuddion gwrth-droseddu cyffuriau, nid er budd y defnyddiwr yn unig ond er budd y gymdeithas ehangach. Mae 90% o'r defnydd o gyffuriau yn adloniadol ac nid yw'n gwneud unrhyw niwed. Ni ddylid defnyddio'r system cyfiawnder troseddol i gosbi pobl sydd ddim yn gwneud unrhyw niwed.

Rwy'n credu'n gryf y dylai pobl sy'n gaeth i gyffuriau gael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth iechyd am gymorth, yn hytrach na chael eu trin fel troseddwyr gan yr Heddlu. Mae Caethiwed i Gyffuriau yn glefyd, nid trosedd.

Collwyd y rhyfel ar gyffuriau amser hir yn ôl a byddaf yn parhau i weithio i newid y ffordd y mae'r Heddlu'n delio â chyffuriau. Rhaid cydnabod nad y defnyddwyr yw'r broblem, ond y rhai sy'n ecsbloetio'r mwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau er mwyn gwneud arian.

## Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau

Rwy'n awyddus iawn i dreialu'r hyn a elwir yn gyffredin yn 'Gyfleuster Chwistrellu Diogel' mewn ardaloedd lle mae'r defnydd o gyffuriau yn broblem. Budd y cyfleusterau hyn yw lleihau nifer y 'marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau' a helpu i atal ofn troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn cymunedau lleol. Mae Panel Ymgynghorol Llywodraeth Cymru ar Gam-Drin Sylweddau yn cynnal ymchwil ar hyn o bryd ar werth 'Cyfleuster Chwistrellu Diogel'. Caiff canlyniadau'r ymchwil hwn eu cyflwyno i Ddirprwy Ysgrifennydd y Cabinet, Rebecca Evans, yn y dyfodol agos. Yn dilyn hyn, rwy'n gobeithio treialu cyfleuster yn Rhanbarth Gogledd Cymru.

## Iechyd Meddwl

Rwy'n bryderus bod swyddogion yn cael eu defnyddio fel ymatebwyr cyntaf i ddigwyddiadau iechyd meddwl yn rheolaidd, ond sylw meddygol sydd ei angen ar y rhai mewn argyfwng. Mae hwn yn faes y byddaf yn ei fonitro, a byddaf yn ceisio cefnogaeth bellach gan wasanaethau golau glas eraill, yn ogystal â'r bwrdd iechyd, i geisio lleihau'r galw hwn. Byddaf yn adrodd ymhellach ar y mater hwn yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

## Comisiynu Gwasanaethau – Cydgomisiynu – beth yw hyn?

Yn gryno, mae'n ymwneud â sicrhau'r gwerthoedd a'r canlyniadau gorau mewn modd cynaliadwy hirdymor, drwy wneud y defnydd gorau o'r holl arian sydd ar gael gan y gwasanaetha rydym yn eu comisiynu yn y gymuned. Er enghraifft, byddaf yn darparu cyllid sylweddol i gefnogi'r flaenoriaeth trais domestig ynghyd â Llywodraeth Cymru. Rhaid i'r holl asiantaethau weithio gyda chyllidebau llai, ond drwy weithio gyda'n gilydd gallwn sicrhau bod yr holl flaenoriaethau ar draws y rhanbarth yn cael eu cyflawni. Mae'n ymwneud ag ychwanegu gwerth i'r gwaith rydym yn ei gefnogi a sicrhau ein bod yn deall anghenion y defnyddwyr a'r cymunedau a'u bod wrth wraidd y broses gomisiynu.

Mae gwaith y dyfodol yn cael ei gynnal gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar Werth Cymdeithasol. Mae ymgynghorydd wedi bod yn gweithio ar lunio polisi a fydd yn galluogi i mi ddangos sut fydd fy swydd a'r Heddlu yn gweithredu Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a sut y byddwn yn cyflawni gwerth cymdeithasol drwy ein gweithgareddau comisiynu a chaffael. Bydd y polisi yn gofyn bod ein cyflenwyr yn cymryd cyfrifoldeb am yr hyn a gaiff ei gomisiynu a'i gaffael, ac i'm cefnogi i'n foesol a chyfreithiol wrth gyflawni ein blaenoriaethau Gwerth Cymdeithasol.

Mae'r egwyddorion hyn wedi'u cynnwys yn fy Fframwaith Comisiynu.

## Cydweithio

Rydym wedi cydweithio â heddluoedd eraill Cymru a gogledd-orllewin Lloegr ar faterion gweithredol fel trosedd gyfundrefnol, gwrthderfysgaeth, fforensig a phlismona arfog. Mae yna lawer o elfennau o blismona sy'n fwy effeithiol pan rydym ni'n cydweithio gyda'n gilydd, ac oherwydd ein lleoliad daearyddol yng ngogledd Cymru rydym ni'n gallu cydweithio'n effeithiol gyda heddluoedd eraill Cymru a chyda cydweithwyr dros y ffin. Rhaid i ni barhau i gydweithio ac rwy'n awyddus i edrych am ardaloedd pellach lle gallwn ni gydweithio gyda Heddluoedd eraill a datblygu ein perthnasoedd gyda chydweithwyr yn Iwerddon, gan mai'r prif borthladd ar gyfer dod i'r DU o Iwerddon yw Caergybi, Gogledd Cymru.

## Ymgynghori

Byddaf unwaith eto yn ymgynghori ar yr amcanion plismona newydd yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau y byddant yn dal i fod yn addas i'r diben ac yn diwallu anghenion ein cymunedau, yn ogystal â'r Gofynion Plismona Strategol. Byddaf yn ymgynghori drwy e-arolwg gyda'r holl brif fudd-ddeiliaid, cydweithwyr a chysylltiadau, gan wneud defnydd llawn o gyfryngau cymdeithasol i sicrhau dosbarthiad eang.

## Deddf Plismona a Throseddau 2017

Bydd Deddf Plismona a Throseddau yn creu mwy o ddiwygiadau a bydd yn effeithio ar fy rôl ac ar Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r newidiadau'n cynnwys y ffordd y delir â chwynion gan y cyhoedd, materion eraill sy'n ymwneud ag ymddygiad yr heddlu a darpariaeth bellach yn ymwneud â Chomisiwn Cwynion Annibynnol Yr Heddlu. Ceir newidiadau i bwerau arolygu'r heddlu gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi.

Rwy'n falch iawn o weld y newidiadau mewn perthynas ag Iechyd Meddwl gan na fydd dalfa'r heddlu yn lle diogel i unigolyn ifanc â phroblemau iechyd meddwl mwyach, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir ei defnyddio, ac ar gyfer oedolion. Bydd y rhan hon o'r Ddeddf yn dod i rym ym mis Medi 2017 (ar y cynharaf) a gallaf adrodd ar sut mae Heddlu Gogledd Cymru a fy ngwasanaeth i wedi mynd i'r afael â'r newidiadau o'r hen Ddeddf yn fy adroddiad y flwyddyn nesaf.

O fis Awst 2017, rwyf wedi gofyn i'r Heddlu ddarparu manylion i mi o bobl ifanc sydd yn y ddalfa, faint o bobl ifanc gafodd eu hatgyfeirio i lety saff a diogel a p'un a oedd angen defnyddio'r heddlu. Yn ogystal, fel rhan o fy mhroses archwilio safonau proffesiynol, byddaf yn monitro cwynion gan blant a phobl ifanc yn rhagweithiol. Darperir yr archwiliad hwn i Banel yr Heddlu a Throsedd yn fy adroddiadau diweddaru.

# Cysylltiadau

## Y Strategaeth Plant

Rwyf am i ddioddefwyr trosedd ifanc allu cydnabod y ffaith a theimlo'n ddigon hyderus i adrodd amdano i'r heddlu. Pan mae pobl yn adrodd am drosedd, mae'n galluogi i'r heddlu ddeall y materion sy'n effeithio ar ein cymunedau yn glir, ac felly yn galluogi iddynt ddelio â nhw yn effeithiol. Mae cynnydd mewn adrodd am faterion yn dyst o well ffydd yn yr heddlu hefyd. Fodd bynnag, rwyf hefyd am weld llai o ddioddefwyr troseddau yn gyffredinol.

Bwriad fy Strategaeth Plant yw sicrhau bod gan blant a phobl ifanc ffydd yn Heddlu Gogledd Cymru, gan arwain at berthnasoedd da rhwng yr heddlu a phobl ifanc, a bod plant a phobl ifanc yn barod i adrodd am drosedd. Rwyf hefyd am weld niferoedd llai o bobl ifanc yn cael eu tynnu i'r system cyfiawnder troseddol a lleihau yn y nifer sy'n troseddu eto.

Bydd mesur llwyddiant yn heriol gan nad yw mesur a deall lefelau o ffydd yn union wyddoniaeth. Fodd bynnag, byddaf yn rhoi nifer o ddulliau ar waith i helpu i fesur barn, megis cynnal arolwg a chynnal cyfleoedd i ymgysylltu'n rheolaidd er mwyn gallu dangos mynegiant o ffydd ac ymddiriedaeth mewn gwasanaethau plismona.

Fi yw Cadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru a byddaf yn gweithio gyda phartneriaid ar draws yr holl asiantau cyfiawnder troseddol i ystyried ffyrdd y gall cyfiawnder troseddol a phartneriaid y gymuned ehangach chwarae eu rhan i leihau niferoedd y bobl ifanc sy'n cyflawni troseddau ac sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.

## Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Mae gennyf dîm bach o staff sy'n fy nghefnogi i gyflawni fy swydd fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu yr hoffech siarad â rhywun ynglŷn â sut y gallwch gymryd rhan mewn ymgynghoriadau neu ddigwyddiadau yn y dyfodol cysylltwch â:

01492 805486 neu anfonwch e-bost atai OPCC@northwales.pnn.police.uk

Er mwyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar fy ngwaith gallwch:
- edrych ar fy ngwefan www.nwpcc.CYMRU
- fy nilyn ar twitter @NorthWalesPCC

## Heddlu Gogledd Cymru

Mewn argyfwng y rhif i'w ddeialu yw 999 ond os oes gennych ymholiad heb fod yn frys neu'n dymuno rhannu gwybodaeth gyda'r heddlu yna deialwch 101.

E-bost:- northwalespolice
@nthwales.pnn.police.uk
Gwefan:- www.north-wales.police.uk
Twitter:- @nwpolice

## Canolfan Gymorth i Ddioddefwyr

Os ydych chi wedi dioddef o drosedd, gall Canolfan Gymorth i Ddioddefwyr gynnig cymorth a chyngor i chi. Mae'r gwasanaeth am ddim ac yn gwbl gyfrinachol a gellir ei ddefnyddio hyd yn oed os nad ydych wedi rhoi gwybod i'r heddlu am eich profiad.

Llinell gymorth rhad ac am ddim, 24 awr y dydd - 0808 16 89 111 / 0300 30 30 159
Gwefan - www.victimhelpcentrenorthwales.org.uk

## PACT

Gall Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned eich helpu gyda chais am gyllid o'r prosiect "Eich Cymuned, Eich Dewis". Cysylltwch ar 01745 588516 gwefan www.pactnorthwales.co.uk.